



**Ysbrydoli,
arwain ac
ariannu
treftadaeth
y DU**



Cynnwys

| | | |
|-----------|---|-----------|
| | Rhagair gan Syr Peter Luff | 04 |
| | Trosolwg gan Ros Kerslake | 06 |
| 01 | Ein gweledigaeth ac uchelgais ar gyfer 2019–2024 | 08 |
| 02 | Ein portffolio | 30 |
| 03 | Ysbrydoli ac arwain | 36 |
| 04 | Ariannu | 46 |
| 05 | Newid cadarnhaol sy'n parhau | 48 |
| | Atodiadau | 50 |
| | Datblygu ein strategaeth | 50 |
| | Ein polisi a'n cyd-destun gweithredu | 51 |

Cydnabyddiaeth

Cyhoeddwyd Ionawr 2019.
Hawlfraint © Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol 2019.
Gwybodaeth yn gywir ar adeg cyhoeddi.

Dyluniwyd gan 23red a chynhyrchwyd gan The Right Stuff.

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu, sydd wedi'i ardystio yn unol â'r FSC® (Cyngor Stiwardiaeth Coedwigaeth). Ailgylchwch ar ôl ei ddefnyddio.

Ffotograffiaeth

© Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, ac eithrio: Whitworth (delwedd y clawr) © David Levene; Flow to the Future © Maciej Winiarczyk; Peter Luff © Paul Pickard; Ros Kerslake © Jeff Gilbert; Pages of the Sea © 14–18 NOW; Dinas Diwylliant Hull © Chris Pepper; Y Santes Fair yn y Cei © Andy Marshall; Punk in Walsall © Steve Pottinger; Mynwent Brompton © Y Parciau Brenhinol; Ystlumod © Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod Hugh Clark; Cynllun Sgiliau Bywyd Gwyllt © Sam Frost; V&A Dundee © Hufton Crow; Yr Ysgwrn © APCE-SNPA; Jodrell Bank © Ant Holloway; Dolffin © Gregory "Slobirdr" Smith; BAM! Sisterhood © Canolfan Angelou; Polli: Nation © Polli:Nation; Oatcake Obsessions © Caudwell Children; Castell Norwich © Cyngor Sir Norfolk; Daniel Adamson © Matt Thomas Ffotograffiaeth; Bannockburn © Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Alban; Gorsaf Ddan Sunderland © David Allan; Gwella Dyfodol © Jason Lawton / IWM North; Harland a Wolff © GOC Photography; Cynllun Lle Arbennig © Cyngor Bwrdeistref Great Yarmouth; Back from the Brink pine marten © Anne-Marie Kalus; The Piece Hall © Ffotograffiaeth Paul White; Sain Ffagan © Amgueddfa Cymru.

Ceir rhagor o wybodaeth am y prosiectau sy'n ymddangos yn y ddogfen hon ar ein gwefan www.heritagefund.org.uk

Clawr Blaen
The 21st Century
Gallery in the Park:
Extending Access
to the Whitworth's
Collections
Prifysgol
Manceinion

Chwith
Flow to the Future:
connecting people
and peatlands
RSPB yr Alban

Rhagair

Syr Peter Luff, Cadeirydd



Mae popeth a wnawn dros dreftadaeth y Deyrnas Unedig yn bosibl oherwydd chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. Felly, rhaid i ni wario eu harian yn ddoeth, a rhaid i'r prosiectau rydym yn eu cefnogi fod o fudd iddyn nhw a'u cymunedau. Mae hyn yn mynnu ymrwymiad llwyr oddi wrthym tuag at amrywiaeth a chynhwysiant. Mae treftadaeth yn diffinio pwy ydym ni i gyd. Rhaid iddi fod yn hygyrch i bawb.

Mae treftadaeth yn dod â hanes yn fyw. Mae'n cynnwys adeiladau a thirweddau, amgueddfeydd ac atgofion, gwrthrychau a rhywogaethau, ond nid ydym yn diffinio na'n cyfyngu ei chwmpas. Er y caiff ein gwaith ei lywio gan arbenigwyr, gofynnwn i bobl benderfynu ar yr hyn sy'n werthfawr iddynt o'r gorffennol a'r hyn y maen nhw am eu trosglwyddo i'r dyfodol. Dyna'r dreftadaeth yr ydym yn ei chefnogi.

Mae adfer treftadaeth i gyflwr gwell a'i gwneud yn gwbl hygyrch i gynulleidfaoedd amrywiol yn cyflwyno buddion ehangach di-ri. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu sgiliau a gwella llesiant, hybu economïau lleol a chreu swyddi, cynnal bioamrywiaeth, ac annog ymdeimlad o hunaniaeth ac o berthyn.

Gellir siŵr o fod crynhoi ein dull gweithredu orau gan y frawddeg ganlynol, "Nid yw'n ddigon i achub rhywbeth – mae'n rhaid i chi ei wneud yn fyw." Y rheswm dros hyn yw bod treftadaeth fyw yn fwy tebygol o fod yn gynaliadwy a dod â mwy o fuddion i bobl a chymunedau.

Mae'r Fframwaith Cyllido Strategol newydd hwn yn nodi cyfeiriad newydd arwyddocaol i ni. Mae wedi'i seilio ar chwarter canrif o brofiad Cronfa Dreftadaeth y Loteri, gwaith ymchwil trylwyr, a'r Adolygiad Pwrpasol o'r Gronfa a gynhaliwyd yn ystod 2017. Mae hefyd yn adlewyrchu'r angen i ymateb i amgylchedd sy'n newid, gan gynnwys llai o sicrwydd ynghylch ein hincwm a disgwyliadau newidiol mewn cymdeithas. Felly, yn yr un modd â'r dreftadaeth yr ydym yn ei chefnogi, rhaid i'r strategaeth ei hun fod yn fyw a datblygu i wynebu'r heriau hyn.



Byddwn yn monitro effeithiolrwydd ein dull gweithredu newydd yn barhaus, gan ymgynghori â'n holl bartneriaid wrth wneud hynny, ac yn gwneud y newidiadau sydd eu hangen i gyflawni ein gweledigaeth a'n huchelgeisiau.

Un o'n prif amcanion o hyd yw gwella cyflwr ein treftadaeth. Ond byddwn yn gwneud llawer o bethau'n wahanol o hyn ymlaen.

“Byddwn yn ceisio sicrhau bod arian chwaraewyr y Loteri Genedlaethol yn cael hyd yn oed fwy o effaith”

Yn gyntaf, rydym yn newid y ffordd yr ydym yn gweithio er mwyn bod yn fwy datganoledig a chael adnoddau gwell. Bydd ein strwythur sefydliadol newydd yn ein galluogi i ysbrydoli ac arwain y sector treftadaeth. Mae'n mynd i'r afael â heriau newydd, fel effaith technolegau digidol, a bydd hefyd yn caniatáu i ni ariannu'r blaenoriaethau newydd a nodir yn y strategaeth hon.

Yn ail, rydym yn ei gwneud hi'n haws i ymgeiswyr a'n holl bartneriaid weithio gyda'r Gronfa. Rydym yn symleiddio ein prosesau a'r canlyniadau yr ydym yn eu ceisio mewn prosiectau, gan fynd â'n gwaith yn agosach at y cymunedau

yr ydym yn eu gwasanaethu. Dylai hyn hefyd gyflymu penderfyniadau a helpu ein staff rhagorol i wneud eu swydd yn well fyth dros dreftadaeth y Deyrnas Unedig.

Yn drydydd, byddwn yn ceisio gwneud i arian chwaraewyr y Loteri Genedlaethol weithio'n galetach fyth. Creu grantiau fydd ein swyddogaeth bwysicaf o hyd, ond byddwn yn edrych am ffyrdd newydd o wneud busnes, gan groesawu benthyciadau a modelau buddsoddi cymdeithasol yn ein portffolio o gymorth ariannol i sefydliadau treftadaeth a'u prosiectau.

Yn olaf, rydym yn newid ein henw er mwyn gwneud y cysylltiad rhyngom ni a'r Loteri Genedlaethol yn fwy eglur. Bydd hyn, gobeithio, yn annog mwy o bobl i chwarae, oherwydd byddant yn gweld yn fwy eglur y pethau gwych y mae eu harian yn eu cyflawni.

Croeso i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Ros Kerlake

Prif Weithredwr



Mae'r Fframwaith Cyllido Strategol hwn ar gyfer 2019–2024 yn nodi ein gweledigaeth a'r egwyddorion a fydd yn llywio ein buddsoddiad Loteri Genedlaethol am y bum mlynedd nesaf.

Mae'n fframwaith uchelgeisiol yn hytrach na'n gynllun cadarn. Rydym yn cyflwyno cyfeiriadau strategol newydd a ffyrdd newydd o weithio er mwyn cynorthwyo a chryfhau treftadaeth y DU drwy adegau ansicr, a byddwn yn ymateb yn hyblyg i newidiadau a chyfleoedd wrth iddynt godi.

Pan wnaethom ddechrau datblygu ein strategaeth, gwnaethom ofyn i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol beth ddylai'r arian 'achosion da' ei gyflawni dros dreftadaeth a phobl. Roedd eu hymateb yn ysbrydoledig ac yn heriol. Cafodd ein hegwyddorion sefydledig o gefnogi'r cwmpas eang o dreftadaeth ledled y DU a sicrhau bod treftadaeth yn cael ei mwynhau gan yr amrywiaeth fwyaf posibl o bobl eu cefnogi'n frwd gan y chwaraewyr. Mae'r sefyllfa hon hefyd yn parhau i gael ei chefnogi'n frwd gan y cyhoedd a'r cwsmeriaid a rhanddeiliaid a ymatebodd i'n hymgyngoriad mewn manylder. Byddwn yn parhau â'r cyfeiriad troswaol hwn, sydd wedi galluogi miloedd o brosiectau treftadaeth llwyddiannus i gyflawni canlyniadau

gwych ers 1994, gan drawsnewid cymunedau ledled y DU.

Rydym yn disgwyl buddsoddi oddeutu £1.2 biliwn yn nhreftadaeth y DU yn ystod y pum mlynedd nesaf. Mae hwn yn gyfle enfawr i adeiladu ar gyflawniadau'r 25 mlynedd ddiwethaf, ac yn gyfrifoldeb mawr. Ein huchelgais ar gyfer yr arian a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol yw ysbrydoli, arwain ac ariannu treftadaeth y DU er mwyn creu newid cadarnhaol a hirhoedlog i bobl a chymunedau.

Beth fydd hyn yn ei olygu'n ymarferol? Byddwn yn cefnogi'r gwaith da anferthol y mae treftadaeth yn ei chyflawni ar gyfer cymdeithas, gan ddefnyddio ein tystiolaeth a'n profiad i fod yn eiriolwr cryf gyda llywodraeth genedlaethol a lleol ac asiantaethau eraill. Byddwn yn cefnogi gallu a chydnerthedd y sector treftadaeth yn gyffredinol, ac yn annog arloesedd a chydweithio, gan gynnwys gweithio ar draws sectorau gydag amrediad eang o bartneriaid. Rydym wedi gosod chwe amcan i ni'n hunain i gofnodi effaith buddsoddiad y Loteri Genedlaethol mewn treftadaeth hyd at 2024, a byddwn yn mesur ein cynnydd yn erbyn yr amcanion hyn yn rheolaidd.

Trwy fuddsoddi cyfran o'n hincwm, fechan i ddechrau, mewn buddsoddiadau cymdeithasol (er enghraifft, drwy fenthyciadau a chronfeydd effaith), byddwn yn ailgylchu rhywfaint o'n cyllid ac yn cynyddu ein heffaith. Byddwn yn cynyddu gallu sefydliadau i fanteisio ar gyllid ad-daladwy, ac yn defnyddio buddsoddiad ychwanegol i dyfu'r 'pot' cyffredinol sydd ar gael ar gyfer treftadaeth.

Wedi ein hannog gan argymhellion ein Hadolygiad Pwrpasol diweddar, byddwn yn ehangu ein gweithgarwch mewn meysydd eraill hefyd. Byddwn yn cynorthwyo sefydliadau treftadaeth i ymgysylltu'n rhyngwladol a chael budd o gyfnewid gwybodaeth a sgiliau.

Trosolwg

Byddwn yn cynyddu gallu digidol yn y sector ac yn ein sefydliad ein hunain, gan gynnwys rhannu ein data'n agored. Byddwn yn buddsoddi'n rhagweithiol mewn cyfleoedd strategol eraill, fel dulliau casglu dynamig, a dulliau arloesol o adfywio treftadaeth mewn perygl, drwy ymgyrchoedd achlysurol yn y DU, y wlad neu'n lleol, a chronfeydd arloesedd a phartneriaeth.

Mae ein cwsmeriaid a rhanddeiliaid wedi galw am yr hyblygrwydd mwyaf posibl yn ein cyllid, ac rydym yn ymateb gyda phortffolio creu grantiau sydd wedi'i symleiddio'n llwyr. Hwn sy'n darparu'r rhan helaeth o'n cyllid drwy Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, sef rhaglen agored ar gyfer unrhyw fath o brosiect treftadaeth rhwng £3,000 a £5 miliwn. Rydym wedi symleiddio ein prosesau a gofynion ymgeisio, gan gynnwys cyflwyno grantiau un rownd hyd at £250,000. Bydd ein cwsmeriaid yn gweld rhai gwelliannau i'n prosesau ar-lein ar unwaith, gyda newidiadau mwy o faint i ddilyn o 2020 ymlaen, wrth i ni foderneiddio ein systemau creu grantiau digidol. Nod hyn yw gwneud y profiad o weithio gyda ni mor effeithlon a syml â phosibl.

“Byddwn yn sefyll dros y lles enfawr y mae treftadaeth yn ei ddarparu i gymdeithas”

Rydym yn gwneud newidiadau i'n sefydliad hefyd. Rydym eisoes wedi ein datganoli'n drwm yn ein gwaith o greu grantiau, gyda phenderfyniadau lleol yn cael eu gwneud ar grantiau hyd at £2 miliwn. Credwn yn gryf y dylai'r penderfyniadau buddsoddi hyn gael eu gwneud gan bobl sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardaloedd a'r cymunedau sy'n elwa, a chan bobl sy'n deall gwahanol anghenion strategol a nodweddion unigryw'r dreftadaeth ledled pedair gwlad y DU. Am y tro cyntaf, byddwn yn dirprwyo pob penderfyniad cyllido hyd at £5 miliwn i bwyllgorau yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon,

a thair ardal ddaearyddol newydd yn Lloegr - y Gogledd, Canolbarth Lloegr a'r Dwyrain, a Llundain a'r De. Bydd hyn yn cyfri am oddeutu 80% o'n cyllideb flynyddol, o'i gymharu ag oddeutu 45% o dan y fframwaith strategol presennol.

Byddwn yn parhau i ddarparu llawer o gymorth i ymgeiswyr, gydag amrediad ehangach o adnoddau digidol hygyrch a defnyddiol. Byddwn yn darparu help pwrpasol i ymgeiswyr blaenoriaeth uwch a gaiff eu tangynrychioli yn ein cyllid, ac i'r rhai hynny sy'n cyflwyno cais i ni am y tro cyntaf, i'w cynorthwyo i gyflawni eu huchelgeisiau. Trwy fuddsoddi mewn technoleg, byddwn yn gallu gweithio'n fwy lleol gyda chymunedau, gyda rhwydwaith ehangach o leoliadau swyddfa a staff ledled y DU, gan gefnogi ein strwythur llywodraethu datganoledig.

Mae llwyddiant y Loteri Genedlaethol yn hanfodol i gyflawni ein gweledigaeth ledled y DU. Mae ein henw a brand newydd yn defnyddio logo croesi bysedd poblogaidd y Loteri Genedlaethol i gryfhau'r cyswllt rhwng chwarae a'r achos treftadaeth, ac i godi ymwybyddiaeth o'r effaith enfawr y mae'r buddsoddiad sylweddol hwn yn ei chael ar dreftadaeth a chymunedau. Mae pawb yn elwa ar Loteri Genedlaethol ffyniannus, ac roedd y chwaraewyr Loteri Genedlaethol y gwnaethom ymgynghori â nhw'n eiriolwyr brwdfrydig dros hyrwyddo'r newyddion da hyn yn fwy eglur. Gwnaeth un cyfranogwr mewn gweithdy yn Amgueddfa Beamish y sylw canlynol:

“D'oedd gen i ddim syniad i le roedd fy arian yn mynd pan oeddwn yn chwarae'r Loteri [Genedlaethol]. A phe bawn i wedi sylweddoli ei fod wedi'i wario dros dreftadaeth yn y modd hwn, byddwn wedi prynu dau docyn. Prynwch fwy o docynnau a rhoi mwy o arian i'r cyllid treftadaeth. Nid ein dyfodol ni yn unig mohono, ond dyfodol ein plant a'n hwyron a'n hwyresau hefyd.”

01

Ein gweledigaeth ac uchelgais

ar gyfer 2019–2024





Pages of the Sea,
Traeth Downhill, Derry
14-18 NOW

Fframwaith hyblyg ar gyfer pedair gwlad y DU

Cenedlaethol a lleol

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn unigryw o ran y ffaith ei bod yn cynnwys yr ehangder llawn o dreftadaeth naturiol, ddiwylliannol ac anghyffyrddadwy ledled y DU. Ers 1994, mae £8 biliwn o grantiau Loteri Genedlaethol wedi'i roi i fwy na 44,000 o brosiectau i gynnal a thrawsnewid treftadaeth y DU. Trwy raddfa'r buddsoddiad hwn, rydym wedi cael dylanwad arwyddocaol ers mwy na 25 o flynyddoedd, gan yrru dull cynhwysol a democrataidd o ymdrin â threftadaeth a gefnogir yn eang gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol a'r cyhoedd.

chymunedau'n cael ei ddeall yn llwyr. O dan y Fframwaith Cyllido Strategol hwn, bydd y busnes y byddwn yn ei gyflawni, ein llywodraethu a'n penderfyniadau buddsoddi'n fwy datganoledig nag erioed. Bydd pob penderfyniad hyd at £5 miliwn o

“Rydym yn ystyried gwahanol flaenoriaethau polisi yn y pedair gwlad, a rolau strategol asiantaethau eraill”

Mae ein gweithrediad ledled y DU a'n presenoldeb rhanbarthol a gwladol yn ein galluogi ni i weithio'n strategol gyda llywodraethau ac ystod eang o sefydliadau partner. Ar yr un pryd, rydym hefyd yn ymgysylltu'n agos â phobl a chymunedau sy'n gofalu am eu treftadaeth ac yn ei dathlu ar lefel leol. O fewn ein fframwaith, rydym yn ystyried gwahanol flaenoriaethau polisi'r pedair gwlad, a rolau strategol asiantaethau eraill. O 2018–2019 ymlaen, mae gennym Gyfarwyddiadau Polisi newydd ar gyfer y DU, Cymru, yr Alban ac, am y tro cyntaf, Lloegr. Rydym yn gweithio'n agos gyda llywodraeth leol a phartneriaid strategol lleol eraill i sicrhau bod gwerth treftadaeth a'i chyfraniad i fywyd dinesig a

Ar y dde
Dinas Diwylliant
Hull 2017
Dinas Diwylliant Hull
y DU 2017 Cyf



“Bydd yr holl benderfyniadau hyd at £5m o grantiau'r Loteri Genedlaethol ar gyfer treftadaeth yn cael eu gwneud yn lleol”

dan Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (gweler tudalen 32) yn cael ei wneud yn lleol, gydag ein Bwrdd y DU yn penderfynu ar fuddsoddiadau strategol ledled y DU a dyfarniadau mawr dros £5 miliwn.

Ymatebol a strategol

Trwy ein portffolio cyllido newydd mwy syml a'n hymrwymiad i arloesedd a chydweithio, bydd gennym gynnig cyllido hyblyg dros y pum mlynedd nesaf sy'n ymatebol i amgylchiadau cenedlaethol a lleol. Byddwn yn ystyried blaenoriaethau a gweithgareddau asiantaethau eraill, gan gryfhau a dwysau ein gwaith partneriaeth er mwyn ychwanegu gwerth at fuddsoddiadau'r Loteri Genedlaethol a denu mwy o allu, arbenigedd ac adnoddau ar gyfer treftadaeth.



Ein gweledigaeth a'n rôl

“Ysbrydoli, arwain a darparu adnoddau ar gyfer treftadaeth y DU i greu newid cadarnhaol a pharhaol i bobl a chymunedau, yn awr ac yn y dyfodol”

Y stori hyd yn hyn...

Ni yw cyllidwr grant dynodedig mwyaf treftadaeth y DU ers y 25 mlynedd ddiwethaf, gan wneud “gwahaniaeth hirhoedlog i dreftadaeth a phobl”. Rydym wedi gyrru dull gweithredu cynyddol a chynhwysol, sy'n galluogi sefydliadau i drawsnewid eu cynnig treftadaeth i'r cyhoedd ac sy'n caniatáu i ystod llawer ehangach o bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau treftadaeth. Mae'r buddsoddiad gan y Loteri Genedlaethol wedi adfywio ein treftadaeth genedlaethol, gan drawsnewid llawer o'n sefydliadau mawr yn ogystal â chyrraedd pob cymuned o'r wlad, gan wella bywydau bob dydd miliynau o bobl.

Ein gweledigaeth ar gyfer 2019–2024

Yn ystod y pum mlynedd nesaf, byddwn yn adeiladu ar y cyflawniadau blaenorol hyn. Ein nod yw bod yn arweinydd a gwneuthurwr newid cryf ar gyfer cwmpas eang treftadaeth. Rydym eisiau dangos a hyrwyddo'r effaith a'r buddion y mae treftadaeth yn eu cyflawni i gymdeithas, a denu buddsoddiad a chefnogaeth gan eraill. Rydym eisiau i dreftadaeth gael ei gweld yn eang fel cyfrannwr hanfodol i'r economi, cydlyniant cymdeithasol, lleoedd gwell a llesiant unigol.

Ein rôl

Wedi degawd o wariant cyhoeddus gostyngedig, mae'r amgylchedd ariannol yn parhau i fod yn heriol i dreftadaeth. Byddwn yn hyrwyddo arloesedd mewn modelau busnes, ac yn meithrin gallu, sgiliau a chydnerthedd ymhlith sefydliadau treftadaeth er mwyn eu galluogi i arallgyfeirio eu hincwm.


Byddwn yn symud y tu hwnt i gyllid grant, gan fuddsoddi incwm y Loteri Genedlaethol fel grantiau, benthyciadau neu ymyriadau ariannol eraill i le byddant yn ymateb gorau i anghenion strategol. Byddwn yn cynyddu ein heffaith i'r eithaf drwy ailgylchu ychydig o'n hincwm, yn ogystal â manteisio i'r eithaf ar fuddsoddiad mewn treftadaeth gan eraill. Byddwn yn meithrin partneriaethau a chydweithrediadau strategol, yn ysbrydoli a chefnogi arloesedd, ac yn hybu cydnerthedd y sector treftadaeth.

Byddwn yn darparu arweiniad a chymorth, gan ddefnyddio ein 25 mlynedd o brofiad mewn cyflawni prosiectau treftadaeth, o ddatblygiadau cymunedol bychan i ddatblygiadau cyfalaf miliynau o bunnoedd dros nifer o flynyddoedd. Byddwn yn gweithio ochr yn ochr â'r asiantaethau hynny sy'n gyfrifol am ddatblygu'r sector ac yn creu cyfleoedd i rwydweithio a chydweithio, gan ddefnyddio ein data a'n gwaith ymchwil i rannu dysgu ac arfer gorau. Byddwn hefyd yn cynorthwyo sefydliadau i fesur a dangos eu heffaith gymdeithasol drwy dreftadaeth.

**Ochr dde ar
frig y dudalen**
**St Mary at the Quay,
Ipswich**
Ymddiriedolaeth
Cadwraeth Eglwys



Ym mha faes treftadaeth y mae arian y Loteri Genedlaethol wedi'i wario ers 1994



Maes Treftadaeth

- Adeiladau hanesyddol a henebion **37%**
- Diwydiannol, Morwrol a Thrafnidiaeth **7%**
- Treftadaeth anniriaethol **4%**
- Tirweddau a natur **22%**
- Amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifau a chasgliadau **29%**
- Treftadaeth gymunedol (a gyflwynwyd fel categori yn 2012) **1%**

Ein hamcanion strategol

Rydym yn gosod chwe amcan penodol gyda dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y Fframwaith Cyllido Strategol hwn er mwyn cefnogi gwerthusiad gwell o effaith buddsoddiad y Loteri Genedlaethol. Gweler tudalen 48 am ragor o fanylion.

“Rydym yn gosod chwe amcan penodol gyda dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y fframwaith cyllid strategol yma”

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- parhau i adfer treftadaeth i gyflwr gwell
- ysbrydoli pobl i werthfawrogi eu treftadaeth yn fwy
- sicrhau bod treftadaeth yn gynhwysol
- cefnogi'r sefydliadau yr ydym yn eu hariannu i fod yn fwy cadarn a blaengar ac i ddangos mwy o fentergarwch
- dangos sut mae treftadaeth yn helpu pobl a lleoedd i ffynnu
- cynyddu'r cyfraniad y mae treftadaeth yn ei wneud i economi'r DU.

Cyfraniad chwaraewyr y Loteri Genedlaethol

Caiff ein hincwm ei godi gan bobl sy'n chwarae'r Loteri Genedlaethol, ac rydym yn gosod ein cyllidebau buddsoddi'n flynyddol yn dibynnu ar yr enillion y mae hyn yn ei greu ar gyfer achosion da treftadaeth. Er mwyn sicrhau bod y Loteri Genedlaethol yn parhau i ffynnu, mae'n fwyfwy pwysig i hyrwyddo ymwybyddiaeth a chydabyddiaeth gyhoeddus o'i rôl hanfodol mewn cymdeithas ddinesig iach a bywiog.


Yn y Fframwaith Cyllido Strategol hwn, byddwn yn cynorthwyo'r rhai hynny yr ydym yn eu hariannu i gryfhau brand y Loteri Genedlaethol yn eu prosiectau llwyddiannus ac yn edrych am ffyrdd newydd o hybu a chydabod ei chyfraniad. Yn ystod 2019, wrth i ni ddathlu 25 mlynedd o gyllid gan y Loteri Genedlaethol, rhagwelwn y bydd partneriaid a phrosiectau treftadaeth allweddol yn cyfrannu tuag at stori cyllido treftadaeth gref o ran y Loteri Genedlaethol, gyda chynlluniau hyrwyddo i ddathlu'r achlysur. Byddwn yn annog a, lle y bo'n briodol, yn cydweithio ar hyrwyddo proffil uwch a chynlluniau cyhoeddusrwydd fel rhan annatod o brosiectau treftadaeth a ariannir gan y Loteri Genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno cyfleoedd i ddiolch, cydnabod a chynnwys y bobl sy'n cyfrannu drwy brynu tocynnau.

Ochr dde ar frig y dudalen
Punk in Walsall: life and legacy
Walsall Creative Factory


Ochr chwith yng nghanol y dudalen
Amgueddfa Mary Rose, Doc Hanesyddol Portsmouth
Ymddiriedolaeth Mary Rose

Ochr dde ar waelod y dudalen
Mynwent Brompton
The Royal Parks, Llundain


Rydym wedi derbyn cefnogaeth sylweddol ar gyfer ein hamcanion. Er enghraifft, ar sail ein harolwg YouGov o fwy na 10,000 o oedolion y DU yn ystod 2018:




Mae 89% ohonynt yn cytuno y dylai ystod mor eang â phosibl o bobl fwynhau treftadaeth




Mae 82% ohonynt yn cytuno y dylai treftadaeth gyflwyno buddion cymdeithasol cryf mewn ardaloedd lleol, gan helpu pobl a lleoedd i ffynnu




Mae 82% ohonynt yn cytuno y dylai pobl gael eu hysbrydoli i werthfawrogi treftadaeth yn fwy



Mae 76% ohonynt yn cytuno y dylid adfer treftadaeth i gyflwr gwell



Mae 75% ohonynt yn cytuno y dylai treftadaeth fod yn fentrus a blaengar



Mae 73% ohonynt yn cytuno y gall treftadaeth gael effaith arwyddocaol ar yr economi



Cwmpas llawn treftadaeth

Bydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn parhau i ariannu cwmpas llawn treftadaeth ar hyd a lled y DU, gan alluogi pobl i ddiffinio treftadaeth drostynt eu hunain, fel y gall yr hyn y maen nhw'n ei werthfawrogi gael ei fwynhau a'i drosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol. Mae'r cwmpas a'r ystod hon yn hanfodol i'n rôl fel dosbarthwr cyllid y Loteri Genedlaethol ar gyfer treftadaeth, a chydabyddir bod ein dull gweithredu wedi gwneud treftadaeth yn fwy democrataidd a pheri iddi gael ei gwerthfawrogi'n fwy nag o'r blaen.

“Cydnabyddir bod ein hymagwedd wedi gwneud treftadaeth yn fwy democrataidd ac yn cael ei gwerthfawrogi'n fwy eang nag o'r blaen”

Ochr chwith ar frig y dudalen
Partneriaeth
Tirwedd Hanes Cudd
Tomintoul a Glenlivet
Awdurdod Parc
Cenedlaethol
Cairngorms

Ochr dde ar frig y dudalen
Cynllun Sgiliau
Bywyd Gwyllt
Ymddiriedolaeth Bywyd
Gwyllt Wiltshire

Ochr chwith ar waelod y dudalen
Ystlumod mewn Eglwysi
Naturiol Lloegr

Ochr dde ar waelod y dudalen
Archif LDHT+
Pride Islington
Bwrdeistref Islington
Llundain

Treftadaeth mewn perygl

Mae ein cyllid yn chwarae rhan hanfodol mewn cadw, diogelu a throsglwyddo treftadaeth o bob math sydd mewn perygl o gael ei cholli, ei difrodi neu ei hesgeuluso.

Mae gennym ddealltwriaeth eang o'r ffyrdd y gallai treftadaeth gael ei hystyried i fod mewn perygl. Mae'n cynnwys:

- treftadaeth sy'n debygol o gael ei cholli, ei difrodi neu ei hanghofio
- treftadaeth sydd wedi'i dynodi i fod 'mewn perygl'
- safleoedd treftadaeth ffisegol sy'n dirywio neu'n cael eu hesgeuluso
- treftadaeth mewn perygl oherwydd anawsterau ariannol
- treftadaeth anghyffyrddadwy ac arferion diwylliannol y gallai gael eu colli

- cynefinoedd a rhywogaethau pwysig sy'n lleihau.

Bydd ystyried a yw treftadaeth mewn perygl yn parhau i fod yn ffactor pwysig wrth i ni wneud penderfyniadau.

Treftadaeth ym mhedair gwlad y DU

Cadarnhaodd ein hymgyngoriad strategol fod cefnogaeth eang am y cynigion ledled y DU. Pan wnaethom ofyn sut y dylem ystyried y gwahanol flaenoriaethau yn y pedair gwlad, roedd yr ymatebwyr o blaid cydnabod anghenion a chynlluniau lleol. Dylai prosiectau naill ai alinio gyda'r amcanion hynny, neu dylem sicrhau ein bod yn ymgynghori ag arbenigwyr lleol neu'r rhai hynny 'ar lawr gwlad'. Adlewyrchir hyn yn y ffordd yr ydym yn ymateb i Gyfarwyddiadau Polisi a gyhoeddir i ni gan bob llywodraeth.

Gwnaeth ein hymgyngoriad ar flaenoriaethau treftadaeth amlygu llawer o bethau tebyg, ond hefyd rhai gwahaniaethau, rhwng anghenion Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Nodwyd mai'r tri maes mewn angen mwyaf ledled y DU oedd y canlynol:

- treftadaeth naturiol a bioamrywiaeth
- cysylltu pobl leol â'u treftadaeth
- treftadaeth adeiledig.

O fewn y rhain, roedd treftadaeth naturiol yn fwy o flaenoriaeth i'r tair gwlad y tu allan i Loegr. Roedd pob rhan o'r DU yn credu bod ein rôl o ran cefnogi gallu a chydnerthedd y sector treftadaeth yn bwysig, ac roedd hyn hefyd ychydig yn gryfach yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.



Y Fonesig Seona Reid

Cadeirydd, Pwyllgor yr Alban

O dirweddau eiconaidd a rhywogaethau prin i amgueddfeydd ac orielau pwysig; o draddodiadau diwylliannol cyfoethog i drefluniau hanesyddol a'n gorffennol diwydiannol, mae treftadaeth yn ganolog i hunaniaeth yr Alban. Deallir hefyd fod ganddi rôl bwysig i'w chwarae yn ei dyfodol. Mae'r Loteri Genedlaethol wedi gwneud gwahaniaeth mawr i dreftadaeth yr Alban ers 1994, drwy fuddsoddiadau cyfalaf yn ei seilwaith a thrwy ddod â threftadaeth yn fyw i amrywiaeth eang iawn o bobl.

“Mae gan dreftadaeth y grym i drawsnewid bywydau pobl a chymunedau yn yr Alban”

Mae'r Alban yn ymestyn dros un rhan o dair o ardal dirol y DU a thros ddwy ran o dair o'i harfordir, felly nid yw'n syndod fod ymgynghoriad diweddar wedi nodi treftadaeth naturiol fel prif flaenoriaeth treftadaeth yr Alban. Dilyniir hyn gan dreftadaeth gymunedol a threftadaeth adeiledig, gydag ymrwymiad sylfaenol i gynnwys cymunedau llai breintiedig a chymunedau a eithrir. Bydd hyblygrwydd y Fframwaith Cyllido Strategol hwn yn ein galluogi ni i ymateb i'r blaenoriaethau hyn, ac i gyfleoedd a phartneriaethau strategol sy'n unigryw i'r Alban.


Mae'r Strategaethau Amgylcheddol a Diwylliannol sy'n ymddangos ar gyfer yr Alban yn rhoi treftadaeth wrth wraidd themâu trawsbynciol, gan gynnwys rôl treftadaeth mewn creu lleoedd. Maen nhw hefyd yn cydnabod ei photensial i wella cydlyniant cymunedol, cyfrannu at rymuso cymunedol, hybu cynhwysiant, a gwella

iechyd a lles. Byddwn yn cydweithio â chyrff o'r sector treftadaeth, llywodraeth leol a chenedlaethol, mentrau cymdeithasol, twristiaeth, cyrff celfyddydol, cymunedau lleol ac eraill i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a fydd yn codi yn sgil gweithio rhyng-gysylltiedig. Wrth wneud hyn, rydym yn ymrwymedig i gefnogi'r sector i ddod yn fwy cydnerth, i feithrin gallu, i ddatblygu sgiliau, ac i annog arloesedd ac archwilio dulliau gweithio newydd.

Byddwn yn adeiladu ar fentrau diweddar fel Cynllun Lleoedd Arbennig yr Alban a'n hymateb i Flynyddoedd Thematig Llywodraeth yr Alban gyda chyllid pwrpasol o'r Loteri Genedlaethol, yn fwy diweddar Blwyddyn Hanes, Treftadaeth ac Archaeoleg a Blwyddyn Pobl Ifanc. Mae'r Blynyddoedd Thematig i ddod, sy'n ymwneud ag Arfordiroedd a Dyfroedd (2020) a Straeon yr Alban (2022), yn cynnig potensial mawr ar gyfer cydweithio yn y dyfodol.

Mae gan dreftadaeth y gallu i drawsnewid bywydau pobl a chymunedau yn yr Alban. Ac mae gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol rôl fawr i'w chwarae – rôl yr ydym yn ei chofleidio'n frwdfrydig.

Yr Alban



Cymru



Y Farwnes Kay Andrews

Cadeirydd, Pwyllgor Cymru

Mae treftadaeth Cymru'n amrywiol, yn gymhleth ac yn gyfoethog iawn. Mae gan ein gwlad ymdeimlad dwys o le – boed hynny yng nghymoedd de Cymru, yn nhirwedd wyllt Eryri neu ar ein harfordiroedd gwych. Mae ein tirweddau a threfluniau gwledig a threfol a'u gwahanol gymunedau, diwylliannau ac ieithoedd i gyd yn cyfrannu at ein hunaniaeth Gymreig unigryw.

“Mae gwahanol ddiwylliannau ac ieithoedd i gyd yn cyfrannu at ein hunaniaeth Gymreig unigryw”

Rydym yn dathlu'r amrywiaeth honno yng Nghronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ac yn cydnabod y newidiadau sylweddol sydd wedi gwneud argraff ar ein gwlad. Rydym yn cefnogi prosiectau ar hyd a lled Cymru sy'n rhoi treftadaeth wrth wraidd yr uchelgeisiau sydd gan gymunedau am ddyfodol cyfoethocach a mwy atseiniol. Gwnawn hyn drwy fuddsoddi arian y Loteri Genedlaethol mewn partneriaethau pwerus rhwng sefydliadau treftadaeth ac asiantaethau lleol eraill er mwyn helpu i greu lleoedd gwell i fyw a gweithio. Yn fyr, rydym yn helpu i osod diwylliant a threftadaeth yn y man cywir – wrth wraidd adfywio cynaliadwy a chymunedau cydnerth.

Mae ein gwaith yn cydnabod yr hyn y mae pob un ohonom yn ei wybod yn reddfodol: mai'r hyn sy'n peri i bobl a chymunedau ffynnu yw ymdeimlad o gael ei gynnwys, hunaniaeth a synnwyr

o berthyn. Yn aml, mae'r cysylltiadau hyn ar eu cryfaf pan fydd pobl yn gwerthfawrogi eu diwylliant, eu hanes a'u treftadaeth eu hunain ac yn credu eu bod yn berthnasol iddyn nhw – waeth a ydynt yn darganfod hynny mewn iaith ac arferion neu drwy boeni a gofalu am adeiladau hanesyddol, tirnodau, parciau neu gynefinoedd naturiol. Ein nod yw ysbrydoli hyder o'r fath yn y prosiectau a gefnogir gennym.

Pan fydd cymunedau'n cymryd rhan yn y gwaith o gadw neu wella eu treftadaeth eu hunain, gall gyflwyno buddion di-ri – popeth o iechyd gwell, i sgiliau gwell, swyddi gwell a mwy o lesiant. Gall ein buddsoddiad wneud gwahaniaeth unigryw i bobl ifanc, neu i gymunedau tlotach. Gall ymgysylltu â phrosiectau treftadaeth olygu mwy o lwyddiant yn yr ysgol neu'r coleg, ac, mewn bywyd yn ddiweddarach, gan rymuso pobl ifanc i ddod o hyd i'w llais ac i ddilyn diddordebau ac ennill sgiliau newydd, i gyd yn cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Yng Nghymru, mae gennym gyfleoedd i greu partneriaethau unigryw, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, fel y tystir gan ein cefnogaeth i'r rhaglen Fusion. Mae'r partneriaethau hyn wedi'u lleoli yng nghymunedau tlotaf Cymru. Ein nod yw nid yn unig i hybu mwy o ddealltwriaeth o werth a photensial treftadaeth yn ei holl ffurfiau, ond hefyd i adeiladu ac ehangu hyder, gwybodaeth a sgiliau mewn partneriaeth ag asiantaethau iechyd, tai neu ddatblygiad plant.

Anna Carragher

Cadeirydd, Pwyllgor Gogledd Iwerddon

Wrth wraidd y Fframwaith Cyllido Strategol hwn yw'r gydnabyddiaeth fod gan dreftadaeth y gallu i drawsnewid bywydau pobl a chymunedau, yn gymdeithasol ac yn economaidd. Mae hyn yn adeiladu ar y gwaith yr ydym wedi bod yn ei wneud dros y blynyddoedd, yn trawsnewid treftadaeth Gogledd Iwerddon drwy fuddsoddi ein cyllid o'r Loteri Genedlaethol mewn tirweddau, trefluniau, adeiladau, amgueddfeydd a threftadaeth gymunedol, gan wella a chyfoethogi pwyslais y Rhaglen Lywodraethu leol ar lesiant a chynhwysiant.

“Rydym yn cydnabod y rôl y gall treftadaeth ei chwarae wrth adeiladu cymunedau unedig a hyderus”

Mae'r fframwaith yn cydnabod bod Gogledd Iwerddon yn wynebu heriau unigryw fel cymdeithas lle mae treftadaeth a hunaniaeth wedi'u herio a'u hadfeddu. O ganlyniad, byddwn yn parhau i weithio ochr yn ochr ag amgueddfeydd a phartneriaid eraill i lywio'r gwagle heriol hwn a chreu dealltwriaeth well o'r gorffennol drwy gydnabod llawer o naratifau, cymhlethdodau hanesyddol a hanesion a esgeuluswyd.

Byddwn yn parhau i weithio tuag at fwy o ymgysylltu strategol ar draws y sector treftadaeth, gan adeiladu ar gydberthnasau cyfredol, datblygu rhai newydd, annog arloesedd a datblygu sgiliau, a chan gydnabod yr heriau y mae treftadaeth yn eu hwynebu o ran cydnerthedd a meithrin gallu. Byddwn yn annog dull gweithredu mwy strategol o ran hanes ar lafar a threftadaeth forol. A byddwn yn parhau i adeiladu ar ein gwaith ar Ddegawd o Ganmlwyddiannau a heriau coffa dros gyfnod y Fframwaith Cyllido Strategol, a fydd yn cwmpasu canmlwyddiannau sefydlu gwladwriaeth Gogledd Iwerddon, Gweriniaeth Iwerddon a'r Deyrnas Unedig.

Blaenoriaeth arall fydd creu lleoedd; mae ein tirweddau unigryw yn cynnig cyfleoedd penodol ar lefel drefol a gwledig. Yn y gwaith hwn, rydym yn cydnabod y rôl y gall treftadaeth ei chwarae mewn adeiladu cymunedau cydlynus a hyderus, sefydlu gwagleoedd a rennir a helpu cymunedau i weithio'n well. Byddwn yn meithrin cydberthnasau â'r rhai hynny sy'n gallu cyflawni newidiadau cadarnhaol: llywodraeth leol a chenedlaethol, awdurdodau twristiaeth, sector yr economi gymdeithasol, cymunedau, a grwpiau treftadaeth a grwpiau eraill. Yn benodol, byddwn yn ymgysylltu â chymunedau sydd wedi'u heithrio a chymunedau difreintiedig, y mae rhai ohonynt yn newydd i Ogledd Iwerddon.

Ar y dde
Partneriaeth Tirwedd
Calon y Glens
Ymddiriedolaeth
Treftadaeth Arfordir
Causeway a Glens

Gogledd Iwerddon



Lloegr



Jim Dixon

Ymddiriedolwr

Mae Lloegr yn genedl arbennig o amrywiol, cyffrous a modern. O'r man ffafriol lle rwyf yn byw yn y Peak District, mae maint Lloegr yn amlwg, o leiaf ar y diwrnodau mwyaf clir, lle gallwch bron iawn weld o un pen o'r arfordir i'r llall, a gweld ymhell dros gan milltir o'r gogledd i'r de. Mae amrywiaeth y dirwedd, effaith y miliynau o flynyddoedd ers i ddyn ymgartrefu yma a'r seilwaith modern hefyd yn amlwg.

“Gall treftadaeth helpu i fynegi a rhoi bywyd i'r pethau hynny sy'n diffinio pobl fwyaf”

Mae'r Loteri Genedlaethol wedi cael effaith drawiadol ar hyd a lled Lloegr. Mae llwyddiant diwylliannol dinas fawreddog Manceinion wedi'i sbarduno gan grantiau mawr fel y Galeri Whitworth gwobrwyol, ac ar Wastadedd Sir Gaer, mae dysgl Jodrell Bank yn bwynt atgoffa mawr o'r dreftadaeth dechnolegol yr ydym yn ei dathlu ac yn ei gwneud yn fwy hygyrch i ymwelwyr o bob oed. Yn nyffryn Afon Derwennydd, mae melinau arloesol Cromford a Derby yn dathlu datblygiadau ffurfiau newydd o fasnach. Yn Swydd Stafford, mae un o gofebau rhyfel pwysicaf y wlad, yr Arboretum Coffadwriaethol Genedlaethol, yn croesawu ymwelwyr mewn adeilad a ariannwyd gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

Yn bell i ffwrdd, ar ddiwrnod braf, mae Cadeirlan Lincoln yn ein hatgoffa o dreftadaeth hynafol ein hadeiladau crefyddol mawr a bach. Yn Newcastle, mae model rheoli newydd o barciau'r ddinas, mewn partneriaeth â'r

Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yn dangos y gall y manau gwyrdd trefol hyn gael dyfodol llewyrchus. Mae arian y Loteri Genedlaethol wedi cyffwrdd â phopeth, o'n gwarchodfeydd natur gorau, fel Minsmere, Slimbridge a Chlogwynni Bempton, i'r cadeirlannau mawr yn Durham, Henffordd a Chaergaint, ac i'r amgueddfeydd a chasgliadau cenedlaethol gorau, gyda llawer ohonynt yn Llundain ond llawer mewn manau eraill hefyd.

Mewn cyfnod lle gwelir dadleuon cenedlaethol mawr ynghylch ein hunaniaeth, bydd treftadaeth fwy hygyrch sy'n cael ei dehongli'n fwy cywir yn chwarae rhan fwy byth mewn diffinio'r hyn mae lle yn ei olygu i bobl. Waeth a yw eich teyrngarwch i'ch tref, pentref neu ddinas, eich rhanbarth neu eich gwlad, neu i sector o'r gymdeithas sy'n rhannu eich credoau a'ch diddordebau, gall treftadaeth helpu i ddisgrifio ac adfywio'r pethau hynny sy'n diffinio pobl orau. Ac wrth rannu'r rhannau hynny o'n treftadaeth sy'n ennyn y balchder mwyaf, mae lle am economi ymwelwyr ffyniannus sy'n creu cyfoeth yn ei hun ac yn chwalu'r rhwystrau sy'n gallu bodoli rhwng grwpiau o bobl neu genhedloedd.

Mae wyneb Lloegr wedi'i gyffwrdd, ei wella a'i wneud yn fwy perthnasol gan ein gallu i ariannu prosiectau treftadaeth anhygoel, diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. Trwy'r Fframwaith Cyllido Strategol hwn, byddwn yn parhau i chwarae rhan hanfodol mewn cefnogi'r bobl a'r cymunedau sydd eisieu diogelu a dathlu eu treftadaeth.

Blaenoriaethau ar gyfer treftadaeth

O fewn ein dull gweithredu eang tuag at dreftadaeth yn gyffredinol, gwnaeth ein hymgyngoriadau â rhanddeiliaid a'r cyhoedd nodi dau faes blaenoriaethol i ganolbwyntio arnynt:

- tirweddau a natur
- treftadaeth gymunedol.

Tirweddau a natur

Tirweddau a natur yw sylfeini ein diwylliant a'n treftadaeth. Ond yn ystod y blynyddoedd diweddaraf, mae graddfa'r natur yr ydym wedi'i cholli a diffyg dealltwriaeth pobl ynghylch pwysigrwydd natur wedi dod yn fwyfwy amlwg. Mae'r angen i gynorthwyo byd natur i wella yn fwy dybryd nag erioed o'r blaen.

Ni yw un o fuddsoddwyr mwyaf y DU mewn tirweddau a natur, a chyda hyn daw cyfrifoldeb mawr. Yn y Fframwaith Cyllido Strategol hwn, byddwn yn sicrhau bod y prosiectau yr ydym yn eu cefnogi'n gwneud eu gorau glas i leihau colled bioamrywiaeth, i gadw harddwch ac ansawdd ein tirweddau trefol a gwledig, ac i helpu pobl i ailgysylltu â threftadaeth naturiol y DU.

“Nid yw'r angen i gynorthwyo adferiad natur erioed o'r blaen wedi bod mor bwysig”

Ochr chwith ar frig y dudalen
Living Sea Wales:
Moroedd Byw Cymru
Ymddiriedolaeth Natur
Gogledd Cymru

Ar y dde ar waelod y dudalen
BAM! Sisterhood
Canolfan Angelou,
Newcastle upon Tyne

Waeth a yw ein cyllid yn gwarchod gwarchodfa natur, amgueddfa, parc cyhoeddus neu adeilad, byddwn yn disgwyl i brosiectau fanteisio ar y cyfle i greu buddion cadarnhaol i fyd natur drwy, er enghraifft, creu clwydydd i ystlumod, gan gynnwys toeon gwyrdd, darparu pyllau ar gyfer draenio naturiol a phlannu mwy o goed.

Dylai prosiectau sy'n canolbwyntio ar natur ddangos sut byddant yn helpu i fynd i'r afael â'r prif heriau a wynebir gan dirweddau a natur yn y dyfodol mewn modd effeithiol a strategol. Rydym yn arbennig o awyddus i annog prosiectau sy'n gwneud y canlynol:

- darparu cadwraeth ar raddfa tirwedd a chynyddu dealltwriaeth pobl o werth diwylliannol tirweddau a natur
- darparu mwy o gynefinoedd ar gyfer byd natur, sy'n well, yn fwy o faint, yn fwy cysylltiedig ac yn fwy cydnerth
- ailgysylltu pobl â phwysigrwydd a gwerth natur i'w bywydau bob dydd
- gweithio mewn partneriaeth i gynyddu ac ehangu cydweithrediad, yn enwedig pan fydd yn ymglymu sefydliadau a allai gael effaith uniongyrchol ar ddyfodol tirweddau a natur
- archwilio a phrofi ffyrdd newydd o wneud pethau y gellir eu graddio, a chynnwys rhannu'r dysgu.

Byddwn yn parhau i helpu'r rhai hynny sy'n ymdrechu i warchod tirweddau a natur i ddatblygu sgiliau i sefydlu ffynonellau incwm newydd, drwy ddatblygu sgiliau codi arian er mwyn ymgysylltu'n effeithiol â dyngarwyr, noddwyr unigol, ymddiriedolaethau, sefydliadau a busnesau. Byddwn yn defnyddio ein pwerau ymgynnull i helpu i ysbrydoli a chefnogi ffyrdd creadigol newydd o feddwl, syniadau newydd ar gyfer cyflawni newid cymdeithasol, ymgysylltiad gwell â'r cyhoedd a newid ymddygiad er mwyn cefnogi ein treftadaeth naturiol yn y dyfodol.

Treftadaeth gymunedol

Rydym wedi hyrwyddo'r syniad mai treftadaeth yw'r hyn y mae pobl yn ei gwerthfawrogi ac eisiau ei throsglwyddo



i bobl yn y dyfodol, waeth beth yw cydnabyddiaeth neu ddynodiad swyddogol y pethau hyn. Byddwn yn parhau i gynnig cefnogaeth gref i dreftadaeth leol a chymunedol mewn nifer o ffyrdd. Rydym wedi symleiddio'r broses ymgeisio ar gyfer grantiau hyd at £10,000, a byddwn yn parhau i wneud y mwyafrif o'n dyraniadau (yn ôl eu nifer) drwy Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol rhwng £3,000 a £10,000, sydd wedi'u cynllunio i fod yn hygyrch i grwpiau cymunedol. Gall ymgyrchoedd treftadaeth lleol newydd (gweler tudalen 34) ganolbwyntio ar dreftadaeth gymunedol – er enghraifft, i annog ceisiadau sy'n dathlu pen-blwydd pwysig lleol, adeilad neu ofod sy'n annwyl i drigolion, neu arwyr treftadaeth lleol.



Gall unrhyw gais i ni am fwy na £10,000 o dan Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol gynnwys cynllun grantiau cymunedol bellach, sy'n gallu rhoi grantiau cadwraeth a gweithgarwch bychain. Gall y cynllun, a'r gweithgarwch y mae'n ei ariannu, fod y brif ffordd o gyflawni canlyniadau'r prosiect, neu gall fod yn rhan fechan o brosiect ehangach. Rydym yn gobeithio y bydd y dull gweithredu newydd hwn yn galluogi sefydliadau i ymateb i angen lleol.

Gallai enghreifftiau o hyn gynnwys:

- hyfforddi gwirfoddolwyr mewn safleoedd treftadaeth naturiol
- cynnig cyllid i grwpiau lleol i gymryd rhan mewn gŵyl dreftadaeth
- grymuso unigolion ifainc i gymryd camau cymdeithasol sy'n ymwneud â threftadaeth
- digideiddio archifau a gedwir gan wahanol sefydliadau a'u rhoi ar-lein.

Trwy ddysgu o gynlluniau grantiau cymunedol llwyddiannus a redwyd o dan raglenni blaenorol a dargedwyd, byddwn yn annog prosiectau i ddefnyddio proses ymgeisio agored ac i gynnwys pobl mewn penderfyniadau.

Treftadaeth gynhwysol

Treftadaeth i bawb

Mae gan dreftadaeth ran hanfodol i'w chwarae mewn cyfrannu at gymdeithas ffyniannus, fwy cyfartal yn y DU. Byddwn yn parhau i sicrhau bod pawb yn gallu cymryd rhan mewn treftadaeth, waeth beth yw eu cefndir, eu nodweddion personol neu eu hamgylchiadau. Mae pellter i fynd o hyd cyn y bydd gan y sector weithlu a rheolwyr amrywiol, a chyn y bydd y bobl sy'n ymweld â threftadaeth ac sy'n elwa ohoni'n adlewyrchu cymdeithas y DU. Ond rydym eisiau ysbrydoli a chefnogi prosiectau i greu newid hirhoedlog, ac rydym yn codi ein huchelgais i gyflawni mwy o gynhwysiant.

“Rydym yn codi ein huchelgais er mwyn cael gwell cynhwysiant”

Byddwn yn gofyn i bob prosiect gyflawni ein canlyniad cynhwysiant newydd: “bydd ystod eangach o bobl yn ymwneud â threftadaeth” (gweler tudalen 32). Byddwn yn disgwyl i bob prosiect gymryd camau i estyn allan i bobl newydd, i rannu treftadaeth y tu hwnt i'w sefydliad, ac i ymwreiddio arferion cynhwysol mewn modd sy'n gymesur i faint eich grant ac yn briodol ar gyfer y math o brosiect. Byddwn yn darparu canllawiau newydd ac astudiaethau achos i helpu ymgeiswyr i ddeall sut gallwn ni eu helpu i gyfrannu at y gwaith o wneud treftadaeth yn gynhwysol.

Mynd i'r afael â thangynrychiolaeth mewn treftadaeth

Trwy adlewyrchu blaenoriaethau chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, byddwn yn canolbwyntio'n benodol ar gyrraedd y miliynau o bobl hynny yn y DU sy'n cael eu tangynrychioli mewn treftadaeth yn aml neu sy'n wynebu rhwystrau i gymryd rhan ynddi. Trwy ein cefnogaeth allgymorth, byddwn yn mynd ati'n benodol i annog a galluogi ceisiadau gan sefydliadau sy'n gweithio gyda'r bobl ganlynol ac sy'n ceisio cyflwyno buddion iddynt:

- pobl anabl
- pobl ifanc
- pobl o leiafrifoedd ethnig a chymunedau Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol a mwy
- pobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is.

Bydd sefydliadau sy'n cyflwyno cais i ni am y tro cyntaf hefyd yn flaenoriaeth ar gyfer derbyn ein help.

Byddwn yn cefnogi'r sefydliadau hyn i archwilio a rhannu eu treftadaeth. Byddwn hefyd yn disgwyl i sefydliadau treftadaeth prif ffrwd greu mwy o gyfleoedd i gydweithio gyda nhw i gyflawni prosiectau cynhwysol. Bydd gennym ddisgwyliadau uchel ar gyfer sefydliadau sy'n derbyn grantiau mwy o faint: bydd prosiectau cryf yn cynnig cynlluniau credadwy ac uchelgeisiol i gyrraedd cynulleidfaoedd y gwyddys sydd ar goll. Bydd prosiectau'n cael eu cefnogi i fynd y tu hwnt i'r safonau lleiaf ar gyfer hygyrchedd ffisegol a deallusol.

Cefnogi ardaloedd a gaiff eu tangynrychioli yn ein cyllid

Mae rhanddeiliaid yn awyddus iawn i ni fynd i'r afael â thangynrychiolaeth mewn ardaloedd daearyddol yr ydym yn eu cyllido, ac i ganolbwyntio ar ddwy agwedd:

- ardaloedd sydd wedi derbyn y cyllid lleiaf yn y gorffennol
- ardaloedd sy'n profi amddifadedd.

Gan ddefnyddio mesurau o'n gwariant fesul pen a mynegeion safonol o amddifadedd, rydym wedi nodi 13 ardal awdurdod lleol sy'n bodloni'r ddau faen prawf. Bydd ein timau lleol yn gweithio gyda rhanddeiliaid mewn modd strategol, o fewn treftadaeth a thu hwnt, i nodi'r ffordd orau o gynorthwyo sefydliadau i ddiwallu anghenion lleol. Os yw'n berthnasol, bydd hyn yn cynnwys gofyn am geisiadau ar gyfer prosiectau treftadaeth blaenoriaethol, a chynnig micro-grantiau fel y'u treialwyd yn llwyddiannus yn Barrow-in-Furness yn 2017.

Mae'r 13 ardal fel a ganlyn:

Brent (Llundain Fwyaf)
Corby (Swydd Northampton)
Enfield (Llundain Fwyaf)
Knowsley (Glannau Mersi)
Inverclyde (yr Alban)
Luton (Swydd Bedford)
Newham (Llundain Fwyaf)
Gogledd-ddwyrain Swydd Lincoln
Gogledd Swydd Lanark (yr Alban)
Castell-nedd Port Talbot (Cymru)
Rhondda Cynon Taf (Cymru)
Tendring (Essex)
Walsall (Gorllewin Canolbarth Lloegr)

Ar frig y dudalen
Polli:Nation
Learning through
Landscapes Trust

Gwaelod y dudalen
North Staffordshire
Oatcake Obsessions
Caudwell Children



02

Ein portfolio





Castell Norwich: Gateway
to Medieval England
Cyngor Sir Norfolk

Symleiddio ein dull gweithredu

Rydym yn deall yr amser a'r adnoddau sy'n mynd i mewn i wneud ceisiadau am gyllid, a'r rhwystrau y gall portffolio, ffurflenni a phrosesau cymhleth eu cyflwyno i sefydliadau llai o faint a llai profiadol.

Rydym eisiau gwneud y broses ymgeisio mor syml â phosibl ar gyfer yr amrediad llawn o sefydliadau yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan gymhwyso gofynion cymesurol yn dibynnu ar raddfa ein buddsoddiad. Byddwn yn gwella ein profiad ar-lein i gwsmeriaid yn barhaus, gyda ffurflenni byrrach, mwy eglur ac ystod ehangach o adnoddau a chanllawiau digidol i helpu i gynllunio prosiectau o ansawdd uchel.

“Rydym am wneud y broses ymgeisio mor syml â phosibl i'r ystod lawn o sefydliadau rydym yn gweithio gyda nhw”

Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

Rydym wedi symleiddio ein portffolio cyllido'n aruthrol, a byddwn yn cynnig cyllid drwy un rhaglen agored ar gyfer pob math o dreftadaeth, gydag ymgyrchoedd a mentrau partneriaeth treftadaeth achlysurol o fewn terfynau amser. Bydd Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn darparu cyllid ar gyfer pob math o brosiect treftadaeth, gyda grantiau'n dechrau o £3,000. Trwy'r un rhaglen agored hon, byddwn yn ymateb yn hyblyg i gynigion o bob math sydd o ansawdd uchel, gan bob rhan o'r sector treftadaeth ac oddi wrth yr amrediad ehangaf o ymgeiswyr. Bydd ein ffurflenni, prosesau a gofynion ymgeisio'n fyrrach ac yn fwy syml ar gyfer grantiau llai o faint, a byddwn yn

cynnig penderfyniad cyflymach i fwy o ymgeiswyr drwy gynyddu'r terfyn uchaf ar gyfer dyfarniadau un rownd o £100,000 i £250,000. O ran grantiau mwy o faint (rhwng £250,000 a £5 miliwn), byddwn yn cyflwyno cam 'mynegi diddordeb' cynnar, ar sail cyflwyno cynnig prosiect cryno, er mwyn lleihau lefel y gystadleuaeth a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwneud cais llawn.

Bydd gennym ddwy gystadleuaeth ar gyfer dyfarniadau mawr dros £5 miliwn: yn 2020–2021 a 2022–2023. Bydd rhagor o fanylion ar gael am hyn yn ystod 2019.

Canlyniadau

Byddwn yn parhau â'n dull gweithredu sy'n seiliedig ar ganlyniadau, gan ganolbwyntio ar ddarganfod y gwahaniaeth y mae ein buddsoddiad yn ei wneud i dreftadaeth a phobl. Byddwn yn rhoi mwy o gefnogaeth i helpu ymgeiswyr i wneud gwerthusiadau o ansawdd uchel a dangos yr effaith y maent yn ei chael. Yn ogystal â chyflwyno un canlyniad newydd (lles – gweler tudalen 41), rydym wedi symleiddio'r fframwaith canlyniadau, gan barhau i gydnabod yr effaith lawn y mae prosiectau treftadaeth yn ei chyflawni a'r buddion y maent yn eu cyflwyno.

Dyma ein canlyniadau bellach:

- Bydd treftadaeth mewn cyflwr gwell.
- Bydd treftadaeth yn cael ei hadnabod a'i hegluro'n well.
- Bydd gan bobl sgiliau datblygedig.
- Bydd pobl wedi dysgu am dreftadaeth, gan arwain at newid mewn syniadau a chamau gweithredu.
- Bydd llesiant pobl yn well.
- Bydd ystod ehangach o bobl yn gysylltiedig â threftadaeth.



- Bydd y sefydliad a ariannir yn fwy cydnerth.
- Bydd yr ardal leol yn lle gwell i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef.
- Bydd yr economi leol yn cael ei hybu.

Rydym eisiau gwneud treftadaeth yn fwy cynhwysol a galluogi pawb i'w mwynhau. Felly, rhaid i bob prosiect gyflawni'r canlyniad "bydd ystod ehangach o bobl yn gysylltiedig â threftadaeth". Bydd ein disgwyliadau'n gymesur, gyda phrosiectau mwy o faint yn gorfod dangos uchelgais

gwirioneddol i ymrwymo pobl newydd yn eu treftadaeth.

Ni fydd angen i ymgeiswyr gyflawni'r holl ganlyniadau hyn. Gallent gyflawni un yn eithriadol o dda, neu nifer ohonynt, yn dibynnu ar faint, graddfa ac amcanion y prosiect. Disgwylir y bydd prosiectau sy'n derbyn mwy o gyllid yn gwneud mwy o gyfraniad tuag at gyflawni canlyniadau, ac felly tuag at gynorthwyo ein cynnydd yn erbyn ein hamcanion ar gyfer ein cyllid yn gyffredinol (gweler tudalen 49).

Ar frig y dudalen
Prosiect Treftadaeth
Forol Daniel Adamson
Ymddiriedolaeth
Cadwraeth Daniel
Adamson

Gweithio'n strategol a hyrwyddo arloesedd

Byddwn yn parhau i nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio strategol a fydd yn datblygu effaith a dylanwad treftadaeth mewn cymdeithas. Byddwn hefyd yn hyrwyddo dulliau arloesol o gefnogi gallu a chydnerthedd y sector yn gyffredinol.

Ymgyrchoedd treftadaeth

Ochr yn ochr â Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, byddwn yn cynnal ymgyrchoedd treftadaeth er mwyn gwneud y canlynol:

- bodloni anghenion strategol neu fylchau cyllido a nodwyd
- creu cyfleoedd ar gyfer eiriolaeth ac arweinyddiaeth strategol
- ysgogi arloesedd
- cyflwyno ffynonellau newydd o arbenigedd, cynulleidfaoedd ac adnoddau ar gyfer treftadaeth drwy bartneriaethau.

“Rydym wedi ymrwymo i ysgogi arloesi, profi a dysgu o ddulliau newydd”

Bydd gan bob ymgyrch gwmpas daearyddol clir (ledled y DU, cenedlaethol neu leol) a therfynau amser. Ochr yn ochr â'n cyllid, bydd ymgyrchoedd hefyd yn cynnig cyfleoedd i rannu gwybodaeth a dysgu newydd er budd y sector treftadaeth.

Rydym yn disgwyl cynnal yr ymgyrchoedd treftadaeth canlynol ar hyd a lled y DU ym mlynnyddoedd cynnar y Fframwaith Cyllido Strategol:

- Meithrin gallu a chydnerthedd sefydliadol, gan ymateb i'r anghenion a blaenoriaethau strategol parhaus a fynegwyd yn ein hymgyngoriad strategol (2019–2021, gweler tudalen 38).
- Galluoedd digidol, gan ymateb i'n Hadolygiad Pwrpasol a phrosiect Mae Diwylliant yn Ddigidol Llywodraeth y DU (2019–2021, gweler tudalen 40).
- Llesiant, i annog cydweithio rhwng sefydliadau treftadaeth ac ieuchyd/lles, ac i gefnogi prosiectau o ansawdd uchel (2020–2021, gweler tudalen 41).
- Casgliadau Dynamig (2020–2021, gweler tudalen 45).
- Lle (2021–2022, gweler tudalen 43).

Bydd ymgyrchoedd gwladol a lleol eraill, ac ymgyrchoedd eraill ledled y DU, yn cael eu cyhoeddi bob hyn a hyn.

Arloesedd a phartneriaethau

Rydym yn ymrwymedig i yrru arloesedd, profi a dysgu o ddulliau gweithredu newydd, gan weithio gyda phartneriaid i rannu adnoddau ac ychwanegu gwerth i'r mentrau hyn. Un ffordd y byddwn yn cefnogi hyn yw drwy ryddhau Data Agored am ein cyllid grant o fis Ebrill 2019 ymlaen, a diweddarau hwn bob blwyddyn.

Byddwn yn manteisio ar gyfleoedd am ymyriadau strategol newydd wrth iddynt ymddangos. Mae ein gwaith gyda phartneriaid ar ddyfodol parciau cyhoeddus y DU yn un enghraifft o'n dull o weithredu hyn. Rydym yn gweithio gyda Nesta a'r Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i gyflawni'r fenter Ailfeddwl am Barciau er mwyn cefnogi arloesedd wrth reoli parciau cyhoeddus

a mannau gwyrdd trefol. Rydym yn datblygu hon ymhellach drwy fenter newydd ledled y DU yn ystod 2019, sef Sbardun Parciau'r Dyfodol, mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau lleol a chymunedau mewn hyd at wyth lle i ddatblygu datrysiadau trawsnewidiol hirdymor ar gyfer cyllido a rheoli eu holl fannau gwyrdd trefol, gan ddiogelu a gwella'r buddion hanfodol i gymunedau. Bydd y Sbardun yn ceisio catalyddu a rhannu arloesedd yn ogystal â datblygu ffrydiau ariannu newydd, fel buddsoddiadau cymdeithasol a mentrau cymunedol. Byddwn yn rhannu'r holl ddysgu er mwyn helpu eraill ac yn parhau i hyrwyddo gwerth mannau gwyrdd trefol.

Gwaleod y dudalen Representing Birmingham

Ymddiriedolaeth
Amgueddfeydd
Birmingham



03

Ysbrydoli ac arwain





**Canolfan Ymwelwyr
Brwydr Bannockburn**
Ymddiriedolaeth Genedlaethol
yr Alban a Historic Scotland

Meithrin gallu a chydnerthedd

Nododd rhanddeiliaid mai'r flaenoriaeth bwysicaf i ni, y tu hwnt i greu grantiau, oedd cefnogi gallu a chydnerthedd y sector treftadaeth yn gyffredinol.

Ers 2012, rydym wedi cynnig amrywiaeth o gyllid a gynlluniwyd i gryfhau cydnerthedd sefydliadau yn y sector treftadaeth drwy wneud y canlynol:

- meithrin y gallu i godi arian
- cryfhau llywodraethu a sgiliau busnes a menter
- galluogi sefydliadau i arallgyfeirio eu hincwm.

“Mae angen help o hyd ar lawer o sefydliadau ym maes treftadaeth i addasu a newid”

Dengys ein gwaith ymchwil effeithiolrwydd ymyriadau meithrin gallu hyd yn hyn, ond mae'r amgylchedd gweithredu yn parhau i fod yn heriol ac mae angen cymorth o hyd ar lawer o sefydliadau yn y sector treftadaeth i addasu a newid.

Am bob £1 a fuddsoddwyd yn y rhaglen meithrin gallu Ambarél Catalydd, cododd buddiolwyr £3.82 ychwanegol ar gyfer eu sefydliadau drwy godi arian: dros £9 miliwn i gyd.

O dan Grantiau Treftadaeth £3,000–£10,000 a £10,000–£250,000 y Loteri Genedlaethol, byddwn yn parhau i gynnig cymorth i sefydliadau treftadaeth i feithrin eu gallu a'u cydnerthedd. Mae hyn yn amrywio o gyllid bychan i brofi syniadau newydd neu ddatblygu dulliau codi arian

newydd, i brosiectau mwy o faint sy'n canolbwyntio ar gyflawni newid sefydliadol strategol.

Rydym yn lansio ymgyrch treftadaeth dwy flynedd o hyd yn ystod 2019, sy'n canolbwyntio ar feithrin gallu ar draws y sector treftadaeth. Trwy weithio gyda phartneriaid ac adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o raglenni ariannu blaenorol, byddwn yn hyrwyddo arfer gorau, yn rhannu gwybodaeth, yn annog rhwydweithio a chydweithio, ac yn peilota syniadau newydd. Byddwn yn comisiynu rhaglenni cymorth busnes er mwyn cynyddu cydnerthedd a sgiliau ym meysydd codi arian, cynllunio busnes ac ariannol, llywodraethu, mentergarwch masnachol, a chymryd rhan mewn buddsoddiadau cymdeithasol. Byddwn yn cefnogi gallu'r sector i ymgysylltu'n rhyngwladol (gweler tudalen 41) ac yn cefnogi mwy o alluoedd digidol (gweler tudalen 40). A byddwn yn edrych ar ffyrdd newydd o gynnig cymhelliannau arian cyfatebol, gan adeiladu ar ein cynllun cyllido torfol peilot a ddatblygwyd gan Nesta a Chyngor Celfyddydau Lloegr, a defnyddio ein buddsoddiad i annog pobl i roi arian yn breifat.

Benthyciadau a buddsoddiadau cymdeithasol

Mae archwaeth gynyddol i ddefnyddio benthyciadau a buddsoddiadau cymdeithasol eraill yn y sector treftadaeth, er mwyn arallgyfeirio incwm, cryfhau modelau busnes a lleihau dibyniaeth ar grantiau. Yn ein hymgyngoriad strategol, dywedodd 21% o ymatebwyr eu bod eisoes yn defnyddio cyllid nad oedd yn grant, ac roedd gan 17% ddiddordeb mewn archwilio i'r opsiwn hwn. Rydym yn gweld amrediad o gyfleoedd i ymestyn



buddsoddiad y Loteri Genedlaethol ymhellach drwy ailgylchu cyfran ohono, a chryfhau gallu sefydliadau i ymrwymo i fathau eraill o gyllid.

Byddwn yn datblygu nifer o ymyriadau cyllid ad-daladwy yn ystod y Fframwaith Cyllido Strategol, gan beilota rhai dulliau gweithredu yn ystod y camau cynnar. Bydd hyn yn cynnwys cynnig cyfran o'n cyllid fel grantiau, benthyciadau neu fathau eraill o fuddsoddiadau cymdeithasol ad-daladwy. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid lle gall ein buddsoddiad ddenu mwy o gyllid i dreftadaeth gan eraill, er enghraifft mewn model cronfa effaith. Byddwn hefyd yn parhau i ddarparu help a chefnogaeth yn barod ar gyfer y buddsoddiad, er mwyn galluogi mwy o sefydliadau i ennill y sgiliau ariannol a'r sgiliau eraill sydd eu hangen i ddefnyddio cyllid ad-daladwy.

Cronfa Effaith Treftadaeth

Bydd Cronfa Effaith Treftadaeth y Gronfa Treftadaeth Bensaerniol yn cael ei lansio yn ystod 2019, ac mae'n cynnwys ein hymrwymiad mawr cyntaf i ddarparu benthyciadau cyfalaf gwaith a buddsoddiad cyfalaf ar gyfer sefydliadau â diben cymdeithasol neu gymunedol sy'n gweithredu o fewn adeiladau hanesyddol. Gyda buddsoddiad o £2.25 miliwn gan y Loteri Genedlaethol, a £250,000 ychwanegol ar gyfer meithrin gallu drwy fentora gan 'angylion busnes', mae'r cronfa gwerth £7 miliwn hefyd yn cynnwys cyfraniadau o'r Gronfa Treftadaeth Bensaerniol ei hun, Historic England, Historic Environment Scotland a buddsoddwyr eraill. Bydd y Gronfa Effaith Treftadaeth yn darparu benthyciadau o rhwng £30,000 a £500,000 ar gyfraddau llog cystadleuol, gan lenwi'r bwch yn y farchnad ar gyfer y math hwn o fenthyca.



Digidol

Byddwn yn cynorthwyo sefydliadau i ymwreiddio meddylfryd digidol ym mhob prosiect er mwyn sicrhau eu bod yn gallu manteisio i'r eithaf ar dechnoleg newydd i warchod treftadaeth a'i gwneud yn fwy

“Byddwn yn cefnogi sefydliadau i sefydlu meddylfryd digidol ym mhob prosiect”

cynhwysol. Bydd hyn yn cynnwys darparu offer newydd, fel y Cod a Mynegai Aeddfedrwydd Digidol, sy'n cael eu datblygu mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Lloegr, i'w defnyddio gan sefydliadau treftadaeth ledled y DU. Byddwn hefyd yn cynnal ymgyrch meithrin gallu digidol, a fydd yn cynnig grantiau gwerth £1 miliwn yn ystod 2019–2020 a 2020–2021, fel rhan o'n hymrwymiad i'r prosiect Mae Diwylliant yn Ddigidol, a ddatblygwyd gan yr Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon.

Rhyngwladol



Mae ymgysylltu'n rhyngwladol yn cyflwyno cyfleoedd i sefydliadau treftadaeth gyfnewid gwybodaeth â gwledydd eraill, hyrwyddo'u hunain mewn ardaloedd newydd, gweithio gyda phartneriaid newydd a chynyddu'r dwristiaeth sy'n dod i mewn. Mae gwaith rhyngwladol eisoes yn rhan annatod o waith llawer o sefydliadau mawr, yn enwedig amgueddfeydd mawr sydd â rôl ryngwladol bendant. Fodd bynnag, y prinder gallu ac arian sy'n dal llawer o'r sector treftadaeth yn ôl.

Rydym eisiau gweld treftadaeth y DU yn tyfu ac yn dysgu drwy fanteisio ar gyfleoedd i ymgysylltu'n rhyngwladol. Er y byddwn yn parhau i ariannu prosiectau sydd yn y DU yn unig, byddwn yn hybu cyfleoedd i gynyddu gallu sefydliadau i wneud cysylltiadau rhyngwladol ac i gael budd o wneud hynny. Byddwn yn talu costau priodol fel teithio, yswiriant, gweithgareddau treftadaeth a dysgu, cyn belled â bod gan y gweithgarwch rhyngwladol resymeg eglur a'i fod yn cynnig buddion i dreftadaeth, pobl a chymunedau yn y DU a gwerth am arian.

Llesiant

Ein canlyniad newydd yw 'bydd llesiant pobl yn well'. Rydym eisiau annog dulliau gweithredu a phartneriaethau newydd, cyffrous rhwng sefydliadau sy'n gweithio ym maes treftadaeth a'r rhai hynny sydd ag amcanion iechyd a lles ehangach, gan helpu unigolion i fod yn fwy egniol a theimlo'n fwy bodlon â'u bywydau.

addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, a phobl â chyflyrau iechyd hirdymor neu anabledau yw'r rhai sy'n fwyaf tebygol o brofi iechyd meddwl a llesiant gwael. Dylai ein pwyslais newydd ar lesiant gael effaith gadarnhaol ar fwy o'r bobl hyn.

Mae rhai sefydliadau treftadaeth ddiwylliannol a naturiol yn datblygu enw am gyflawni gweithgareddau sy'n cyflwyno effeithiau llesiant, gyda gwaith ymchwil i ddangos rhai ffyrdd sefydledig o fesur y rhain. Bydd ein canllawiau arfer da newydd yn cyfeirio prosiectau at yr adnoddau hyn.

Fodd bynnag, gwnaeth ein hymgynghoriad ddatgelu diffyg hyder o ran a all cyrrff treftadaeth gyflawni llesiant yn effeithiol. Felly, byddwn yn canolbwyntio un o'n hymgyrchoedd treftadaeth cyntaf ledled y DU ar lesiant. Ochr yn ochr â'r cyllid hwn o 2020–2021, byddwn yn cyflwyno rhaglen arwain meddylfryd, gan rannu arferion a chydweithio i feithrin gallu a magu hyder sefydliadau treftadaeth.

“Rydym am annog dulliau a phartneriaethau newydd a chyffrous rhwng sefydliadau sy'n gweithio ym maes treftadaeth a'r rhai sydd â nodau iechyd a llesiant ehangach”

Mae tystiolaeth gynyddol mai'r rhai hynny â'r llesiant perthnasol isaf sy'n elwa fwyaf o ymyriadau o ansawdd uchel. Bydd yr ymyriadau hyn hefyd yn cefnogi ein blaenoriaethau cynhwysiant, yn enwedig i bobl ifanc a phobl ar incymau isel. Pobl ifanc nad ydynt mewn

**Chwith
Gwella Dyfodol:
Gwirfoddoli ar
gyfer Lles**
Amgueddfa Rhyfel yr
Imperial, Amgueddfa'r
Gogledd a Manceinion



Mentergarwch

Gan adeiladu ar ein profiad diweddar drwy'r rhaglen Menter Treftadaeth, byddwn yn parhau i gefnogi prosiectau sy'n sicrhau defnydd newydd o adeiladau hanesyddol nad ydynt yn cael eu defnyddio ddigon a'r rhai hynny sy'n cael eu hesgeuluso neu sydd mewn perygl. Byddwn hefyd yn croesawu elfennau masnachol i'r defnyddiau newydd hyn pan fyddant yn cefnogi hyfywedd y cynllun yn gyffredinol. Yn y dyfodol, gallai'r mathau hyn o brosiect gael eu harwain gan sefydliadau gwneud elw mewn cydweithrediad â sefydliadau dielw. Bydd angen i brosiectau gyflawni canlyniadau cymdeithasol a chymunedol cadarnhaol a dangos y bydd y buddion cyhoeddus yn llawer mwy nag unrhyw fudd preifat.

Ar frig y dudalen

**Hen swyddfeydd
pencadlys adeiladu ac
arllunio Harland and
Wolff, Belfast**
Sefydliad Titanic Cyf

Ar y dde

**Cynllun Lle Arbennig:
Making Waves Together
– Aiddychmygu Trefi
Glan Môr Lowestoft a
Great Yarmouth**
Cyngor Bwrdeistref
Great Yarmouth

Tai

Rydym yn ymrwymedig i fynd i'r afael â'r gwaith hirdymor o adfer economïau ardaloedd lleol. Mae rhanddeiliaid o blaid cynnwys cynlluniau tai bychain a arweinir gan y gymuned a thai cymdeithasol o fewn cynlluniau defnydd cymysg, ac er ein bod wastad wedi gallu ariannu'r rhain, byddwn yn croesawu'r prosiectau hyn yn fwy penodol yn y dyfodol.

“Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r adfywiad economaidd hirdymor mewn ardaloedd lleol”

Rydym yn awyddus i weithio gyda phartneriaid mewn modd strategol, gan gynnwys y sector preifat, i ddangos sut gallai ailddatblygu ac aildefnyddio adeiladau nas defnyddir ac adeiladau sydd wedi'u hesgeuluso chwarae rhan mewn mynd i'r afael ag ardaloedd lle mae angen tai, yn enwedig pan fydd hyn hefyd yn gwella cyflwr safleoedd ac adeiladau hanesyddol sydd mewn perygl.



Lle

Cydnabyddir bod treftadaeth yn cyfrannu at hunaniaeth a balchder lleol, yn ogystal ag adfywio economaidd a chymdeithasol. Mae llawer o brosiectau yr ydym yn eu cefnogi eisoes yn gwneud cyfraniad arwyddocaol i'w hardal leol. Gallai hyn fod trwy fentrau newydd, mwy o dwristiaeth a chyfleoedd hyfforddi newydd sy'n cyfrannu at dwf economaidd cynaliadwy a swyddi, yn ogystal â thrwy wella ansawdd bywyd trigolion a gwneud treftadaeth leol yn hygyrch i bawb. Mae prosiectau'n meithrin amrywiaeth eang o bartneriaethau lleol cynaliadwy – er enghraifft, wrth weithio ar raddfa tirwedd neu mewn dinas.

Mae ein buddsoddiad mewn 34 o Gynlluniau Lleoedd Gwych ar hyd a lled

y DU yn dangos sut gall treftadaeth ddod yn fwy canolog i agendâu lleol ehangach, fel iechyd ac addysg, mewn lleoliadau gwledig a threfol. Dyma'r cysyniad o 'drefnadaeth rwydweithiol' ar waith, (gweler Treftadaeth, Hunaniaeth a Lle yn www.thersa.org.)

Rydym wedi comisiynu gwaith ymchwil ar y cyfraniad nodweddiadol y gall treftadaeth ei wneud, ac rydym yn edrych ar gyfleoedd buddsoddi mewn lleoedd strategol gyda chyllidwyr eraill, buddsoddwyr cymdeithasol a'r sector preifat, fel pwyslais ymgyrch treftadaeth yn y dyfodol. Byddwn yn croesawu prosiectau sy'n seiliedig ar le drwy Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Amgylchedd

“Byddwn yn annog sefydliadau i fabwysiadu mesurau amgylcheddol a allai hefyd gyfrannu at eu gwydnwch”

Yn y dyfodol, bydd pob prosiect y byddwn yn ei gefnogi yn gallu dangos ei fod yn dda i'r amgylchedd. Mae hyn yn datblygu ein hymrwymiad i gefnogi cynaliadwyedd amgylcheddol ymhellach ac i annog sefydliadau i fabwysiadu mesurau amgylcheddol cyfrifol a allai hefyd gyfrannu at eu cydnherthedd. Byddwn yn annog pob prosiect i feddwl am leihau effeithiau amgylcheddol negyddol a chynyddu rhai cadarnhaol o'r cychwyn cyntaf, ac i ystyried sut i ymwreiddio mesurau priodol.

Byddwn hefyd yn cynnig canllawiau ymarferol ar sut i wneud hyn, gan gynnwys drwy gydweithrediad newydd â Pharod at y Dyfodol. Rhwydwaith cynaliadwyedd amgylcheddol yw hwn sy'n cefnogi pobl i wneud penderfyniadau da ynghylch integreiddio mesurau amgylcheddol yn eu prosiectau.

Byddwn yn mynd ati mewn modd cymesurol a phragmataidd. Er enghraifft, dylai prosiectau sy'n derbyn grantiau bychain dan £10,000 feddwl am gamau syml, fel gwneud ymrwymiad i leihau gwastraff a defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu neu ddeunyddiau pydradwy. Bydd disgwyl i brosiectau cyfalaf mawr fynd ati mewn modd llawer mwy canolbwyntiedig, ac i ystyried cynaliadwyedd mewn modd cyfannol ar draws amrediad llawer ehangach o faterion.



Chwith

**Back from the Brink:
saving England's most
threatened species**

Natural England

Amgueddfeydd a chasglu

Byddwn yn adeiladu ar ein buddsoddiad blaenorol mewn casglu strategol i gefnogi amgueddfeydd, archifdai a llyfrgelloedd ledled y DU drwy ymgrych treftadaeth sy'n canolbwyntio ar gasglu dinamig. Bydd hyn yn cynnwys datblygu sgiliau curadurol, rhannu arbenigedd, datrysiadau storio, datblygu ac ad-drefnu casgliadau, a defnyddio casgliadau er budd pobl a chymunedau.

“Datgelodd ein hymgyngoriad â chwaraewyr y Loteri Genedlaethol awydd a brwdfrydedd cryf i gynnwys y cyhoedd yn ein gwaith”

Rheoli casgliadau dinamig yw un o'r blaenoriaethau a nodwyd yn Adolygiad Mendoza hefyd ar gyfer amgueddfeydd yn Lloegr. Rydym yn gweithio'n agos gyda Chyngor Celfyddydau Lloegr i gyflawni argymhellion yr adolygiad. Byddwn yn defnyddio gwybodaeth arbenigol y ddau sefydliad am amgueddfeydd Lloegr i lywio penderfyniadau am grantiau, a byddwn yn gweithio gyda'n gilydd trwy gyfres o bartneriaethau ffurfiol a chydweithrediadau pan fydd ein buddiannau fel dosbarthwyr y Loteri Genedlaethol yn cyd-fynd â'i gilydd.

Ymrwymiad y cyhoedd

Gwnaeth ein hymgyngoriad â chwaraewyr y Loteri Genedlaethol ddatgelu archwaeth a brwdfrydedd dwfn am gael ymrwymiad y cyhoedd yn ein gwaith ac yn y prosiectau yr ydym yn eu cefnogi – fel cynulleidfaoedd, cyfranogwyr, gwirfoddolwyr, cefnogwyr a phenderfynwyr. Roedd neges glir am gynnwys y cymunedau a'r bobl leol a fyddai'n cael budd o benderfynu ar yr hyn a fyddai'n cael ei ariannu, yn ogystal â chefnogaeth dros gynnwys pobl gydag amrediad eang o gefndiroedd a phrofiadau.

Rydym eisoes yn recriwtio'n agored ar gyfer penderfynwyr ar ein pwyllgorau gwladol a phwyllgorau rhanbarthol Lloegr. Rydym hefyd yn gofyn i sefydliadau

yr ydym yn eu hariannu i ddangos sut maent wedi cynnwys eu cymuned leol a phartneriaid eraill wrth ddatblygu eu cynlluniau. Yn ddiweddar, gwnaethom gynnwys pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau grant ar gyfer ein rhaglen ieuencid, Tynnu'r Llŵch, ac, ers hyn, maent wedi mynd ati i hyrwyddo treftadaeth fel llysgenhadon ifanc.

Byddwn yn edrych ar opsiynau eraill i gynnwys y cyhoedd yn ein gwaith yn ystod y pum mlynedd nesaf, ac yn treialu'r opsiynau hyn, gan gydbwysu'r adnoddau sydd eu hangen i wneud hyn gyda'r buddion i brosiectau, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

Ariannu



04

Incwm a chyllidebau

Rydym yn derbyn 20% o incwm 'achosion da' y Loteri Genedlaethol ac yn gosod ein cyllidebau ar gyfer buddsoddi'n flynyddol, yn dibynnu ar ei berfformiad. Byddwn yn adolygu ein cynlluniau'n rheolaidd, ac mae'n bosibl y bydd angen i ni wneud newidiadau yn ystod oes y Fframwaith Cyllido Strategol mewn ymateb i ddatblygiadau allanol, gan gynnwys amrywiadau yn ein hincwm.

Fel canllaw, ac yn seiliedig ar ragolygon incwm presennol, rydym yn bwriadu dyfarnu oddeutu £1.2 biliwn i gyd yn ystod oes pum mlynedd y Fframwaith Cyllido Strategol.

Ein portffolio buddsoddi

Bydd ein portffolio buddsoddi'n cynnwys y canlynol:

- Grantiau Treftadaeth £3,000–£5 miliwn y Loteri Genedlaethol – mae'r grantiau prosiect yn ymatebol i geisiadau ar gyfer pob math o dreftadaeth.
- Ymgyrchoedd treftadaeth sy'n canolbwyntio ar themâu trawsbynciol neu feysydd treftadaeth a fydd yn cyfuno cyfleoedd ar gyfer gwaith ymchwil, eiriolaeth a gweithio mewn partneriaeth, yn ogystal â chyllid grant ar gyfer gweithgareddau penodol (e.e. meithrin gallu yn y cyfnod 2019–2021). Gallai'r rhain fod ar waith ledled y DU, neu mewn gwlad, mewn ardal neu'n lleol.

- Cyllid ar y cyd i gyflawni mentrau strategol mewn partneriaeth, fel Ailfeddwl am Barciau.
- Buddsoddiadau cymdeithasol fel cronfeydd effaith a benthyciadau.
- Dwy rownd o grantiau mawr dros £5 miliwn yn 2020–2021 a 2022–2023.

Mae nodweddion allweddol ein prosesau ar gyfer ymgeisio, gwneud penderfyniadau a monitro o ran Grantiau Treftadaeth £3,000–£5,000 y Loteri Genedlaethol ar gael ar ein gwefan. Byddwn yn cyhoeddi manylion ymyriadau strategol eraill o bryd i'w gilydd, gan gynnwys amserlenni ar gyfer cyflwyno ceisiadau a phenderfyniadau, fel arfer yn ein cynllun busnes blynyddol.

Sut rydym yn dyrannu a dirprwyo

Byddwn yn parhau â'n harfer cyfredol o ddyrannu cyllidebau fesul pen o'r boblogaeth ar gyfer yr holl gyllid nad yw wedi'i neilltuo ar gyfer ymyriadau strategol neu gystadleuaeth ledled y DU. Byddwn hefyd yn cadw 'cronfa gwlad wrth gefn' ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar gyfer achosion blaenoriaeth uchel na ellir talu amdanynt yn y cyllidebau dirprwyedig.

Bydd penderfyniadau ynghylch oddeutu 80% o'n holl gyllid yn cael eu gwneud gan benderfynwyr lleol – pwyllgorau a staff uwch yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a thair ardal Lloegr. Bydd hyn yn cynnwys penderfyniadau ar grantiau prosiect rhwng £3,000 a £5 miliwn drwy Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, ac ar unrhyw ymgyrchoedd treftadaeth fesul gwlad neu'n lleol, cronfeydd ar y cyd neu

fuddsoddiadau cymdeithasol sy'n cael eu hariannu drwy'r cyllidebau dirprwyedig. Yn achos Lloegr, bydd unrhyw ymyrraeth genedlaethol yn cael ei chymryd oddi ar gyllidebau ardal Lloegr, neu drwy gytundeb rhwng yr ardaloedd eu hunain yn Lloegr.

Bydd ein Bwrdd ledled y DU yn parhau i oruchwylio a gwneud penderfyniadau ar bob ymgyrch treftadaeth dros y DU, cyllidebau ar y cyd, cronfeydd effaith a dyfarniadau mawr dros £5 miliwn.

Dyranid cyllideb y pen yw:

| | |
|-------------------------------|-------|
| Gogledd Iwerddon | 2.9% |
| Cymru | 4.8% |
| Yr Alban | 8.4% |
| Lloegr – Gogledd | 23.7% |
| Lloegr – Canolbarth a Dwyrain | 25.3% |
| Lloegr – Llundain a'r De | 35% |

Newid
cadarnhaol
sy'n parhau

05

Amcanion strategol a dangosyddion perfformiad allweddol

Mae gennym chwe amcan strategol ar gyfer ein buddsoddiad yn ystod oes y Fframwaith Cyllido Strategol, ac rydym wedi nodi rhai dangosyddion perfformiad allweddol clir a fydd yn syml i'w dilyn.

Byddwn yn dangos ein heffaith drwy fonitro'r newid rhwng lefelau sylfaenol y dangosyddion perfformiad allweddol (lle y bo'n berthnasol), a osodwyd yn ystod 2018–2019 ar ddechrau'r fframwaith cyllido, a lle y maent yn ystod ac ar ddiwedd y fframwaith cyllido yn ystod 2024–2025. Bydd angen i ni olrhain y dangosydd perfformiad allweddol sy'n ymwneud â'r economi am fwy o amser, oherwydd bydd effeithiau economaidd yn cymryd mwy o amser i'w gwireddu a'u tystiolaethu.

Byddwn yn parhau i adfer treftadaeth i gyflwr gwell

Mae hyn yn cyfleu'r pwysigrwydd yr ydym yn ei osod ar gyflwr treftadaeth. Er enghraifft, byddwn yn mesur i ba raddau y mae treftadaeth allan o berygl o ganlyniad i'n buddsoddiad trwy olrhain data am grantiau.

Byddwn yn ysbrydoli pobl i werthfawrogi eu treftadaeth yn fwy

Rhaid i dreftadaeth barhau i fod wrth wraidd pob prosiect yr ydym yn ei ariannu. Dengys ein gwaith ymchwil fod amrywiaeth eang o dreftadaeth yn

bwysig i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. Byddwn yn olrhain barn y cyhoedd ar werth treftadaeth.

Byddwn yn sicrhau bod treftadaeth yn gynhwysol

Byddwn yn gwneud hyn drwy fesur ac adrodd ar ddemograffeg pobl sy'n gysylltiedig â'n holl waith (fel ymwelwyr, cyfranogwyr, staff, gwirfoddolwyr, hyfforddedigion, a'r rhai hynny sy'n arwain a rheoli prosiectau), a thrwy olrhain cwmpas daearyddol ein cyllid grant ledled y DU.

Byddwn yn cefnogi'r sefydliadau yr ydym yn eu hariannu i fod yn fwy cadarn a blaengar ac i ddangos mwy o fentergarwch

Byddwn yn gwerthuso sampl o sefydliadau cyn ac ar ôl ein cyllid i asesu a ydynt wedi dod yn fwy cydnerth neu beidio.

Byddwn yn dangos sut mae treftadaeth yn helpu pobl a lleoedd i ffynnu

Mae chwaraewyr y Loteri Genedlaethol eisiau ein gweld yn ariannu prosiectau sy'n cyflwyno buddion cymdeithasol cryf mewn ardaloedd lleol. Byddwn yn mesur gwerth ychwanegol ein hymyrraeth mewn 13 o ardaloedd blaenoriaethol (gweler tudalen 29) o'u cymharu ag ardaloedd eraill gan ddefnyddio amrediad o ddangosyddion sefydledig.

Byddwn yn cynyddu'r cyfraniad y mae treftadaeth yn ei wneud i economi'r DU

Mae treftadaeth yn creu buddion economaidd. Byddwn yn mesur faint o fuddion sy'n cael eu creu o ran swyddi, Gwerth Ychwanegol Gros a thwristiaeth, a pha gyfran o'r rhain gellir ei phriodoli i'n buddsoddiad.

Canlyniadau ac amcanion strategol

Bydd y prosiectau yr ydym yn eu cefnogi yn cyflawni un neu fwy o'r canlyniadau a nodir isod. Pan gaiff y rhain eu dwyn ynghyd ar draws ein cyllid, byddant yn eu tro yn cyflawni'r amcanion yr ydym wedi'u gosod ar gyfer ein cyllid yn gyffredinol.

| Canlyniad | Amcan strategol |
|---|---|
| Bydd treftadaeth mewn cyflwr gwell | Byddwn yn parhau i adfer treftadaeth i gyflwr gwell |
| Bydd treftadaeth yn cael ei hadnabod a'i hegluro'n well | Byddwn yn ysbrydoli pobl i werthfawrogi eu treftadaeth yn fwy |
| Bydd ystod ehangach o bobl yn gysylltiedig â threftadaeth | Byddwn yn sicrhau bod treftadaeth yn gynhwysol |
| Bydd y sefydliad a ariannir yn fwy cydnerth | Byddwn yn cefnogi'r sefydliadau yr ydym yn eu hariannu i fod yn fwy cadarn a blaengar ac i ddangos mwy o fentergarwch |
| Bydd gan bobl sgiliau datblygedig Bydd pobl wedi dysgu am dreftadaeth, gan arwain at newid mewn syniadau a chamau gweithredu Bydd llesiant pobl yn well Bydd yr ardal leol yn lle gwell i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef | Byddwn yn dangos sut mae treftadaeth yn helpu pobl a lleoedd i ffynnu |
| Bydd yr economi leol yn cael ei hybu | Byddwn yn cynyddu'r cyfraniad y mae treftadaeth yn ei wneud i economi'r DU |

Atodiad 1: Datblygu ein strategaeth

Adolygiad ymchwil a thystiolaeth strategol

Mae ein cynlluniau ar gyfer 2019–2024 yn seiliedig ar ystod eang o ymchwil strategol, dadansoddi data a gwerthusiadau o effaith cyllid yn y gorffennol. Mae adroddiadau llawn ar gael yn www.heritagefund.org.uk.

Yr hyn y gwnaethoch ei ddweud wrthym

Yn ystod 2017–2018, gwnaethom ymgynghori'n eang â chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, cwsmeriaid a rhanddeiliaid ar y cyfleoedd a'r heriau a oedd yn wynebu treftadaeth y DU yn ystod y pum mlynedd nesaf a'r hyn a ddylai fod yn flaenoriaethau i ni o ran buddsoddiad y Loteri Genedlaethol. Gwnaethom hefyd ofyn barn mwy na 10,000 o bobl ledled y DU ar dreftadaeth. Ar y cyfan, mae mwy na 13,000 o bobl a sefydliadau wedi ein helpu i lunio ein cynlluniau.

Blaenoriaethau chwaraewyr y Loteri Genedlaethol ar gyfer gwario ar achosion da treftadaeth

Gwnaeth ein hymchwilyr gynnal gweithdai gyda mwy na 200 o chwaraewyr y Loteri Genedlaethol ar hyd a lled y DU i drafod treftadaeth a rhannu safbwyntiau ar gyllid ar gyfer treftadaeth ac ar Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (a elwid yn Gronfa Dreftadaeth y Loteri ynghynt). Gellir rhannu'r pethau y gwnaethant siarad amdanynt yn bum thema eang:

- Ehangder y cyllid: cafodd chwaraewyr y Loteri Genedlaethol eu synnu o'r ochr orau gan amrywiaeth y cyllid, ac roeddent yn hoffi'r ffaith fod prosiectau bach a mawr yn gallu cael cyllid. Roeddent yn awyddus i'r amrywiaeth hon barhau.
- Treftadaeth yn lleihau problemau cymdeithasol: mae'r effaith y gall treftadaeth ei chael ar broblemau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd, sy'n cyfrannu at lesiant yr economi leol, yn flaenoriaeth i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

- Bod yn rhagweithiol: teimlai cyfranogwyr ei bod hi'n bwysig ein bod yn weithredol mewn cymunedau, drwy ddarganfod beth mae pobl leol eu heisiau ar gyfer eu treftadaeth a chefnogi pobl sydd eisiau cyflawni prosiectau treftadaeth.
- Cynnwys y cyhoedd mewn penderfyniadau: credai cyfranogwyr y dylai penderfyniadau ynghylch cyllid cymunedol gynnwys barn pobl o'r gymuned honno.
- Codi ymwybyddiaeth: credai chwaraewyr y Loteri Genedlaethol ei bod hi'n bwysig fod pobl yn deall yr hyn y mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ei gwneud, yr hyn sy'n cael ei gyflawni gydag arian y Loteri, a'r pethau yr ydym yn eu cefnogi yn eu hardal leol. Trwy godi ymwybyddiaeth o'n gwaith, gall pobl wirfoddoli, ymweld a themlo balchder ynghylch yr hyn y mae eu tocyn Loteri Genedlaethol yn ei wneud.

Barn y cyhoedd ar dreftadaeth

Gwnaeth arolwg o fwy na 10,000 o bobl yn y DU ymchwilio i farn y cyhoedd ar dreftadaeth a sut y caiff ei gwerthfawrogi; a oedd y safbwyntiau a fynegwyd yn y gwaith ymchwil ar chwaraewyr y Loteri Genedlaethol hefyd yn wir am y boblogaeth gyffredinol; a barn pobl ar ein hamcanion strategol arfaethedig. Yn gyffredinol, cadarnhawyd y canfyddiadau o'r gwaith ymchwil ar chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, a gwnaeth y mwyafrif helaeth o bobl gytuno â'n chwe amcan strategol.

Ymgynghoriad ar gynigion ein Fframwaith Cyllido Strategol

Gwnaeth pobl o fwy na 1,500 o sefydliadau ymateb i'n hymgyngoriad strategol, a gynhaliwyd ar-lein ac mewn cyfres o ddigwyddiadau ledled y DU. Cafwyd cefnogaeth frwd gan randdeiliaid am ein cynlluniau ar gyfer 2019–2024, ac rydym wedi gwneud addasiadau a gwelliannau i rai yn sgil y barnau a fynegwyd.

Atodiad 2: Ein polisi a'n cyd-destun gweithredu

Adolygiad Pwrpasol o Gronfa Dreftadaeth y Loteri

Rydym wedi cael cefnogaeth Adolygiad Pwrpasol 2017 y llywodraeth o Gronfa Dreftadaeth y Loteri wrth ddatblygu ein dull gweithredu. Canfu'r adolygiad ein bod yn sefydliad effeithiol ac effeithlon, ac mae ei argymhellion wedi annog ein huchelgeisiau yn y Fframwaith Cyllido Strategol hwn i wneud y canlynol:

- cymryd safle arwain cryfach, gan osod blaenoriaethau strategol mwy eglur ar gyfer treftadaeth ledled pedair gwlad y DU o fewn fframwaith ar gyfer y DU gyfan
- profi opsiynau eraill ar wahân i grantiau pur, fel buddsoddiadau cymdeithasol a mathau eraill o gyllid ad-daladwy er mwyn cynyddu cynaliadwyedd y sector
- cynorthwyo'r sector i weithio'n rhyngwladol
- cefnogi mwy o ddefnydd o alluoedd digidol a galluoedd digidol uwch
- cefnogi datblygiad brand y Loteri Genedlaethol.

Cyfeiriadau Polisi

Yn ystod 2018, gwnaeth Llywodraeth y DU ymgynghori ar Gyfeiriadau Polisi newydd ar gyfer ein gwaith ledled y DU ac, am y tro cyntaf, yn Lloegr. Cyhoeddwyd y rhain ym mis Tachwedd 2018.

Bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban hefyd yn cyhoeddi Cyfeiriadau Polisi newydd i ni yn gynnar yn 2019.

Asiantaethau o'r sector treftadaeth ledled y DU

Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid, gan gynnwys llywodraethau, sefydliadau anllywodraethol, asiantaethau diwylliannol cenedlaethol a rhanbarthol, a chyrff ambarél fel y Gynghrair Dreftadaeth. Y sefydliadau canlynol yw'r cyrff statudol ar gyfer ein gwaith ledled y DU.

Nid oes unrhyw asiantaethau statudol yn gyfrifol am barciau, rhai agweddau ar dreftadaeth ddiwydiannol, forol a thrafnidiaeth, na threftadaeth anghyffyrddadwy.

Yr amgylchedd adeiledig a threftadaeth ddiwydiannol, forol a thrafnidiaeth

Lloegr Hanesyddol

Amgylchedd Hanesyddol yr Alban

Is-adran yr Amgylchedd Hanesyddol,

Adran Cymunedau Gogledd Iwerddon

Cadw

Llongau Hanesyddol Cenedlaethol y DU

Amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifdai

Cyngor Celfyddydau Lloegr

Amgueddfeydd a Galerïau yr Alban

Cyngor Amgueddfeydd Gogledd Iwerddon

Is-adran Amgueddfeydd, Archifdai

a Llyfrgelloedd, Llywodraeth Cymru

Yr Archifau Gwladol

Cofnodion Cenedlaethol yr Alban

PRONI (Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus Gogledd Iwerddon)

Sefydliad Ffilm Prydain

Tirweddau a natur

Treftadaeth Naturiol yr Alban

Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban

Lloegr Naturiol

Asiantaeth yr Amgylchedd

Cyfoeth Naturiol Cymru

Asiantaeth yr Amgylchedd

Gogledd Iwerddon

